# Llawlyfr Gyrrwr
# Driver Handbook




sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council












Cynnwys

/1
Cyflwyniad 4

/2
Cyfrifoldebau Cyfreithiol Gyrwyr 5-6

/3
Oriau Gyrwyr 7-10

/4
Cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch Gyrwyr 11-15

/5
Ymddygiad Gyrru 16-17

/6
Teithwyr a Defnydd Heb Awdurdod 18

/7
Gyrru mewn Tywydd Garw 19-21

/8
Gwiriadau Cerbyd Dyddiol gan y Gyrrwr 22-24

/9
Llwythi Cerbydau 25-26

/10
Tynnu 27-28

/11
Croesfannau Rheilffordd – Camau Gweithredu'r Gyrrwr 29-31

/12
Diogelu Cerbydau 32

/13
Cyfarwyddiadau ar gyfer Cerbydau Penodol 33-34

/14
Pan fydd Cerbyd yn Torri i Lawr 35

/15
Rhifau Cyswllt mewn Argyfwng 36

/16
Damweiniau Modur 37-39

## 1 | Cyflwyniad



Nod y llawlyfr hwn yw eich helpu chi, y gyrrwr, i wneud eich gwaith yn ddiogel ac

yn gyfrifol.

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu eich cyfrifoldebau fel gweithiwr i Gyngor Sir Caerfyrddin sy'n gyrru cerbyd cyngor mewn rhyw swyddogaeth fel rhan o'ch cyflogaeth.

Mae'n amlinellu'r gofynion y mae'n rhaid i'r gyrrwr eu bodloni yn ôl y gyfraith a pholisi'r Cyngor ac yn rhoi canllawiau iechyd a diogelwch ac arfer da.

Nod y Cyngor yw gweithredu fflyd o gerbydau diogel sy'n cydymffurfio â'r rheolau, ac rydych chi, y gyrrwr, yn chware rhan bwysig er mwyn sicrhau y gallwn wneud hynny.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein gweithwyr yn gyrru hyd at y safonau uchaf, ac i sicrhau bod ein gyrwyr yn gweithredu'n gyfreithlon ac yn ddiogel ar bob achlysur.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau nas trafodir yn y llyfr hwn, neu fod gennych awgrymiadau i'n helpu i ddiweddaru neu wella'r llyfr, mae croeso ichi gysylltu ag aelod o'r uned rheoli fflyd (URhFf) drwy anfon e-bost i envbsufleet@sirgar.gov.uk

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar-lein drwy ein tudalen Teithio a Pharcio ar y fewnrwyd, lle gallwch weld y dolenni a geir drwy gydol y ddogfen.

### Cyn Gyrru Eich Cerbyd

### Gwybodaeth Ddefnyddiol

### Rhifau Ffôn Oriau Gwaith Arferol

Derbynfa'r Fflyd 01554 784138

(Rhwng 8am-4pm o Ddydd Llun i Ddydd Iau ac 8am-3.30pm ar Ddydd Gwener)

### Rhifau Ffôn Brys y Tu Allan i Oriau

Y Fflyd 07721 605917 / 07976 463579

Days Driverline (Problemau Mecanyddol)

0845 2964423

Sinclair (Problemau Mecanyddol)
0800 424151

Llesiant Delta (Rhoi Gwybod am Ddamweiniau)
0300 3332222

**E-bost ar gyfer Pob Ymholiad am Gerbydau**

envbsufleet@sirgar.gov.uk

**Gwasanaethau Brys** 999 / 101





## 2 | Cyfrifoldebau Cyfreithiol Gyrwyr

### Categorïau Trwydded Yrru

Rhaid i yrwyr sicrhau bod hawl y categori trwydded yrru sydd ganddynt yn caniatáu iddynt weithredu unrhyw gyfuniad o gerbyd a threlar y gellir eu defnyddio i gyflawni eu dyletswyddau'n gyfreithlon.

Rhaid i holl staff Cerbydau Nwyddau Trwm gwblhau gwiriad trwydded yrru chwe-misol er mwyn gwirio cymhwystra ac unrhyw achos o dorri rheolau. Y rheolwr llinell/goruchwylydd sydd i gynnal y gwiriad hwnnw.

### Terfynau Cyflymder

Gosodir terfynau cyflymder er diogelwch holl ddefnyddwyr y ffordd. Maent yn amrywio yn ôl dosbarth y cerbyd a'r math o ffordd. Rhaid ichi gadw at bob terfyn cyflymder. Bydd cyflymder cerbydau'n cael ei fonitro drwy ein system delemateg sydd wedi'i gosod ar gerbydau cyngor.

### Ysmygu a Fepio

Ni chaniateir i deithwyr na gyrwyr ysmygu na/neu fepio mewn unrhyw gerbyd.

Mae'n bolisi gan Gyngor Sir Caerfyrddin, ac yn ofynnol yn gyfreithiol

fod ein holl weithleoedd yn ddi-fwg gan fod gan bob gweithiwr hawl i weithio mewn amgylchedd

di-fwg. Gwaherddir ysmygu a fepio ym mhob safle caeedig o fewn y gweithle. Mae hyn yn cynnwys cerbydau Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r polisi'n berthnasol i bob gweithiwr, ymgynghorydd, contractwr, cwsmer ac ymwelydd.

### Gwregysau diogelwch

Rhaid gwisgo gwregysau diogelwch ym mhob cerbyd. Gall eithriadau fod yn berthnasol.

Yn ôl cyfreithiau newydd ynghylch gwregysau diogelwch, mae'n ofynnol i blant dan 135cm neu sy'n 12 oed [pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf] eistedd mewn seddi diogel i blant yn ogystal â gwisgo gwregysau diogelwch.

Os oes unrhyw eithriadau'n berthnasol i chi, rhaid ichi roi gwybod i'ch Rheolwr Llinell.

Fel arfer, bydd yn rhaid i blant ddefnyddio sedd car plentyn nes iddynt droi'n 12 oed, neu dyfu i fod yn 135 cm o daldra, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

Rhaid i blant dros 12 oed neu fwy na 135cm o daldra wisgo gwregys diogelwch.

Gallwch ddewis sedd car plentyn yn seiliedig ar uchder neu bwysau eich plentyn.

### Cyfathrebu Mewn Cerbydau

Mae'n anghyfreithlon **dal** a defnyddio ffôn, llyw lloeren, llechen, neu unrhyw ddyfais a all anfon neu dderbyn data wrth weithredu cerbyd modur.

Mae hyn yn golygu na chewch ddefnyddio dyfais yn eich llaw am unrhyw reswm, p'un a ydych chi ar-lein neu ddim.

Ni chewch anfon neges-destun, ffonio/derbyn galwadau ffôn, tynnu lluniau na fideos, na phori'r we.

Mae'r gyfraith yn dal yn berthnasol ichi os ydych chi:

- wedi stopio wrth oleuadau traffig
- yn ciwio mewn traffig
- yn goruchwylio gyrrwr sy'n dysgu
- yn gyrru car sy'n diffodd yr injan pan fyddwch chi'n stopio symud
- yn dal ac yn defnyddio dyfais sydd all-lein neu mewn "modd hedfan"

### Eithriadau

Gallwch ddefnyddio dyfais sy'n cael ei dal yn eich llaw os:

- oes angen ichi ffonio 999 neu 101 mewn argyfwng, ac nad yw'n ddiogel neu'n ymarferol ichi stopio
- ydych chi wedi parcio'n ddiogel
- ydych chi'n gwneud taliad digyswllt mewn cerbyd nad yw'n symud, er enghraifft wrth fwyty gyrru drwodd
- ydych chi'n defnyddio'r dyfais i barcio eich cerbyd o bell




## Defnyddio dyfeisiau llawrydd

Gallwch ddefnyddio dyfeisiau â mynediad llawrydd ar yr amod nad ydych chi'n eu dal ar unrhyw bryd wrth eu defnyddio. Er enghraifft, mae mynediad llawrydd yn golygu defnyddio:

- clustffon Bluetooth
- gorchymyn llais
- daliwr bord blaen
- mownt
- system llywio lloeren sy'n rhan o'r car

Ni ddylai'r ddyfais eich rhwystro rhag gallu gweld y ffordd a'r traffig o'ch blaen.

## Cadw rheolaeth lwyr dros eich cerbyd

Rhaid ichi gadw rheolaeth lwyr dros eich cerbyd bob amser. Gall yr heddlu eich stopio os ydyn nhw'n meddwl bod rhywbeth yn tynnu eich sylw fel nad oes gennych reolaeth lwyr dros eich cerbyd, a gallwch gael eich erlyn.

## Cosbau

Gallwch gael 6 phwynt cosb a dirwy o £200 os ydych chi'n dal ac yn defnyddio ffôn, llyw lloeren, llechen neu unrhyw ddyfais a all anfon a derbyn data wrth yrru.

Byddwch yn colli eich trwydded hefyd os gwnaethoch basio eich prawf gyrru yn y 2 flynedd ddiwethaf.

Gallwch gael 3 phwynt cosb os nad oes gennych olwg lawn o'r ffordd a'r traffig o'ch blaen, neu reolaeth briodol ar y cerbyd.

Gallwch hefyd gael eich dwyn gerbron y llys, lle gallwch:

- gael eich gwahardd rhag gyrru neu reidio
- cael uchafswm o £1,000 o ddirwy (£2,500 os ydych chi'n gyrru cerbyd nwyddau trwm neu fws)



# 3 | Oriau Gyrru

## Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol ar gyfer Gyrwyr (DCPC)

Mae'r Rheoliadau Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol Gyrwyr (DCPC) wedi bod mewn grym ers mis Medi 2009. Maent yn berthnasol i yrwyr cerbydau dros 3500kg o bwysau cerbyd gros (GVW), sy'n cludo teithwyr a nwyddau.

Rhaid i bob gyrrwr y mae hyn yn berthnasol iddo gwblhau'r cyfnod o hyfforddiant gofynnol, fel bo'n briodol. Gwneir hynny drwy fynychu o leiaf 35 awr o hyfforddiant cymeradwy ym mhob cyfnod o bum mlynedd yn eu gyrfaoedd gyrru.

Bydd y tîm Hyfforddiant Gweithredol yn cynghori Goruchwylwyr/Rheolwyr Llinell ynghylch pryd y bydd angen bod yn bresennol er mwyn bodloni gofynion hyfforddi statudol y DCPC.

## Beth yw pwrpas y DCPC?

- Mae'n anelu i sicrhau safonau uchel wrth yrru
- Yn gwella diogelwch ar y ffyrdd - lleihau damweiniau
- Yn cynyddu effeithlonrwydd tanwydd
- Yn lleihau costau cynnal a chadw
- Yn gwella delwedd yr awdurdodau

Mae peryg i yrwyr nad ydynt yn cwblhau'r hyfforddiant DCPC drwy gydol eu gyrfa, nac/neu'n cario eu cerdyn cymhwysedd gyda nhw ar bob achlysur ar ôl ei dderbyn, gael dirwy cosb benodedig a hyd at 2 flynedd o garchar mewn achos o dwyll.

## Rheolau Oriau Gyrwyr yr UE

**Er bod y DU wedi gadael yr UE, efallai y bydd yn dal angen ichi ddilyn rheolau'r UE ynghylch oriau gyrwyr a thacograffau.**

**Mae rheolau'r UE yn berthnasol i yrwyr y rhan fwyaf o gerbydau nwyddau dros 3.5 tunnell a cherbydau mawr i deithwyr. Rhaid defnyddio tacograff i gofnodi pob taith yrru o dan reolau'r UE.**

**Rhaid i yrwyr gydymffurfio â'r drwydded Gweithredwr a deddfwriaeth y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith bob amser yn ystod oriau gwaith;**

## Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith

Mae terfynau gyrru a gorffwys ar gyfer gyrwyr sy'n gweithio o dan Amser Gwaith yr Undeb Ewropeaidd (UE), Amser Gwaith Domestig y DU wedi'u cynnwys mewn amrywiaeth o gyfarwyddebau a deddfwriaethau. Mae'r rhain yn gymhleth ac felly'n cael eu monitro'n ofalus gan adrannau gweithredol a Gwasanaethau Fflyd a Thrafnidiaeth (Yr Uned Rheoli Fflyd) i sicrhau cydymffurfiaeth ac i ddiogelu Trwydded Gweithredwr ac enw da'r Cyngor.

Er mwyn darparu gwasanaethau hyblyg ac ymatebol, mae'r Cyngor yn defnyddio rhanddirymiadau o reolau gyrwyr yr UE i weithredu o dan reolau Domestig y DU mewn rhai adrannau. Anomaledd yn gysylltiedig â hyn yw ei fod yn cymhlethu'r cyfnod gorffwys sy'n ofynnol ar gyfer cyfnodau dyletswydd sy'n hwy na 9 awr.

1. Y cyfnod gorffwys byrraf i yrwyr wrth yrru o dan Reolau Domestig y DU yw 30 munud cyn i'r amser ar ddyletswydd gyrraedd 6 awr, 45 munud rhwng 6 awr a 9 awr a 60 munud am fwy na 9 awr, gyda chyfnod uchafswm o 11 awr ar ddyletswydd. Dylid rhannu seibiannau'n gyfartal ar draws y diwrnod gwaith, gan gymryd y cyfnod olaf cyn y 10fed awr. Nid yw seibiannau wedi'u cynnwys yng nghyfanswm yr amser ar ddyletswydd.
2. Amserlen gwaith/seibiannau yn unol â'r gweithrediad(au) gwasanaeth penodol neu debygol).
3. Rhaid cofnodi a rhoi cyfrif am oriau, seibiannau a diwrnodau gorffwys gyrwyr sy'n gweithio goramser, sy'n darparu gwasanaeth galw allan brys ac/neu sy'n gweithio y tu allan i'r Awdurdod.

Er mwyn i wasanaethau sy'n darparu gwasanaeth brys (e.e. graeanu), dylai digwyddiad fod yn "anrhagweladwy ac yn annisgwyl", y naill a'r llall. Hyd yn oed os defnyddir darpariaethau brys, rhaid i reolwyr ddarparu cyfnodau digonol o seibiant a gorffwys rhwng sifftiau i sicrhau diogelwch.

Rhaid i'r gyrrwr gael Cardiau Tacograff Digidol Gyrwyr.

Gellir hawlio costau sy'n gysylltiedig â'r pryniant yn ôl gan y Cyngor drwy lenwi'r ffurflen dreuliau briodol; dylai gyrwyr holi eu Goruchwylydd/ Rheolwr Llinell ynghylch hyn.

Mae gyrwyr yn gyfrifol am y Cerdyn Tacograff Digidol a'r gost o gael un newydd os aiff y cerdyn gwreiddiol ar goll.

Bydd y DVLA yn darparu cerdyn newydd yn rhad ac am ddim yn lle cerdyn diffygiol, ar ôl i'r cerdyn hwnnw gael ei archwilio.

Mae Cardiau Tacograff Digidol yn ddilys am 5 mlynedd a dylid cwblhau ceisiadau i'w hadnewyddu cyn y dyddiad gofynnol.

Rhaid i yrwyr fod â cherdyn gyrrwr dilys yn eu meddiant bob amser. Os byddwch chi'n anghofio'ch cerdyn, bydd angen ichi fynd adref i nôl y cerdyn cyn dechrau ar eich dyletswyddau.

Ni ddylai gyrwyr adael eu cardiau yng nghas (daliwr) y tacograff rhwng sifftiau.

Pan fyddwch yn derbyn cerdyn newydd, gwnewch yn siŵr eich bod yn lawrlwytho'r hen gerdyn cyn defnyddio'r cerdyn newydd.

Rhaid ichi ddefnyddio'ch cerdyn tacograff i gofnodi'ch oriau gyrru p'un a ydynt o dan reoliadau Domestig neu reoliadau'r UE.

Bydd y Tîm Hyfforddiant Gweithredol yn darparu unrhyw hyfforddiant angenrheidiol.

| | | |
|---|---|---|
| Gyrru Dyddiol | 9 awr – gellir ymestyn hyn i 10 awr ddwywaith yr wythnos | Dyma'r amser gyrru hiraf rhwng cyfnod gorffwyso dyddiol ac wythnosol. Nid oes angen digolledu am gynyddu i 10 awr. |
| Gyrru Wythnosol | Uchafswm o 56 awr | |
| Gyrru Pythefnosol | 90 awr | Pythefnos yw unrhyw gyfnod treigl o bythefnos sy'n dechrau hanner nos ddydd Sul/ddydd Llun. Mae 40 awr o yrru yn wythnos un yn golygu uchafswm o 50 awr yn wythnos dau. Os ceir 50 awr o yrru yn wythnos dau, dim ond uchafswm o 40 awr o yrru fydd yn bosibl yn wythnos tri. |
| Seibiannau oddi wrth Yrru | Cyfanswm o 45 munud ar ddiwedd/cyn diwedd 4.5 awr o yrru parhaus neu gronnus | Gellir rhannu'r 45 munud yn ddau seibiant - y naill yn isafswm o 15 munud o hyd, a'r llall yn isafswm o 30 munud o hyd. Ar ôl cwblhau'r seibiant cyfan o 45 munud, byddwch chi'n rhydd i yrru am gyfnod arall o hyd at 4.5 awr (os ar gael). Wrth gymryd seibiant, ni chaniateir ichi wneud gwaith arall. Nid yw amser aros ac amser a dreulir fel teithiwr yng nghaban cerbyd â nifer o staff yn cyfrif fel gwaith yn y cyd-destun hwn. |



| | | |
|---|---|---|
| Gorffwys Dyddiol | 11 awr yn y cyfnod o 24 awr sy'n dechrau ar ddiwedd y cyfnod diwethaf o orffwys dyddiol neu wythnosol.<br>Gellir lleihau hyn i isafswm o 9 awr dair gwaith rhwng cyfnodau gorffwys wythnosol. | Gellir treulio cyfnodau gorffwys dyddiol mewn cerbyd sefydlog sy'n cynnwys bync. Nid oes angen digolledu am ostyngiadau i 9 awr. |
| Cyfnodau Gorffwys Dyddiol wedi'u Rhannu | Cyfanswm o 12 awr | Gellir treulio cyfnodau o orffwys dyddiol mewn dau gyfnod, y naill am isafswm o 3 awr, a'r llall am isafswm o 9 awr. |
| Diwrnod Gwaith | 13 neu 15 awr | Cyfyngir ar hyn gan ofynion gorffwys dyddiol. Mae hynny'n golygu na fyddai sifft yn ei gyfanrwydd yn cynnwys mwy n 13 awr, ond gellid ymestyn hyn i hyd at 15 awr o gymryd y cyfnodau gorffwys byrrach gofynnol. |
| Cyfnodau Gorffwys Wythnosol | 45 awr y gellir ei leihau i isafswm o 24 awr. Mewn unrhyw gyfnod o bythefnos rhaid ichi gymryd isafswm o ddau seibiant wythnosol, y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn isafswm o 45 awr o hyd. | I'w cymryd heb fod yn hwyrach na chwe chyfnod o 24 awr ar ôl ichi ddechrau gwaith yn dilyn y cyfnod gorffwys wythnosol diwethaf. Gellir ei leihau i isafswm o 24 awr. Rhaid digolledu am unrhyw ostyngiadau drwy un swm cyfatebol erbyn diwedd y drydedd wythnos yn dilyn wythnos y gostyngiad, a rhaid ei ychwanegu at gyfnod gorffwys dyddiol neu wythnosol o leiaf 9 awr o hyd. Gellir adio dau gyfnod digolledu neu fwy at ei gilydd. Fel cyfnodau gorffwys dyddiol, ceir treulio cyfnodau gorffwys wythnosol mewn cerbyd sefydlog sy'n cynnwys bync. Ni chaniateir gwneud unrhyw waith arall cyflogedig yn ystod y cyfnod hwn. |

## Oriau Gyrru Domestig

Os ydych chi'n gyrru cerbyd am fwy na 4 awr y dydd, ac nad yw rheolau'r UE yn berthnasol iddo, bydd yn rhaid ichi gadw at reolau domestig.

| | | |
|---|---|---|
| Gyrru Dyddiol | 10 awr mewn 24 | Mae gyrru oddi ar y ffordd i ddibenion amaethyddiaeth, chwarela, coedwigaeth, gwaith adeiladu neu beirianneg sifil yn cyfrif fel dyletswydd yn hytrach nag amser gyrru. |
| Dyletswydd ddyddiol | 11 awr mewn 24 | Nid yw'n berthnasol ar ddiwrnodau heb unrhyw yrru |

## Rhwymedigaethau'r Gyrwyr

Rhaid i yrwyr wneud y canlynol:

- Cydymffurfio â'r holl ofynion gorffwys a seibiant.
- Cadw cofnodion o bob cyfnod gyrru ar gyfer y diwrnod cyfredol, ac unrhyw deithiau gyrru a gynhyrchwyd dros y 56 diwrnod calendr blaenorol, i'w cyflwyno os ceir gwiriad ar ochr y ffordd.
- Lawrlwytho Cerdyn Gyrrwr Digidol bob wythnos
- Cario'r Cerdyn Gyrrwr Digidol (os caiff ei gyhoeddi) bob amser, hyd yn oed os oes tacograff wedi'i osod ar y cerbyd.

### Sylwer: Trefniadau Adrodd ar gyfer Gweithgareddau'r Cyngor

Casglu Gwastraff Domestig - Oriau Domestig Prydain

Casglu Gwastraff Gardd a Gwastraff Masnachol - Rheoliadau'r UE

*Sylwch: Mae casgliadau gwastraff cartref o ddrws i ddrws wedi'u heithrio o Reoliadau'r UE ond os bydd gyrrwr yn cyflawni unrhyw weithgaredd nad yw wedi'i eithrio o reoliadau'r UE, fel "casgliad cymysg neu wastraff masnachol" bydd Rheoliadau'r UE yn berthnasol iddo. Mae'r pwynt hwn yn arbennig o berthnasol gan na all gyrwyr symud rhwng y naill gyfres o reoliadau a'r llall fel y mynnent ar unrhyw ddiwrnod.*

Cynnal a Chadw Priffyrdd - Oriau Domestig Prydain

Cynnal a Chadw yn y Gaeaf - Oriau Domestig Prydain

Os oes gan unrhyw yrrwr unrhyw ymholiad ynghylch rheoliadau oriau gyrru, dylai holi'r Rheolwr Fflyd.

### Datganiad Buddiannau Eraill

Os yw unrhyw yrrwr/gweithiwr yn cael ei gyflogi gan ail gyflogwr, rhaid iddo ddatgelu hynny i'r Awdurdod. Rhaid i bob gweithiwr fod yn ymwybodol o'r rheoliadau ynghylch Gweithwyr Symudol a'r cyfyngiadau a osodir arnynt o ran oriau gwaith. Yn bwysig, pwysleisir bod yn rhaid i weithredwyr peiriannau, sy'n cynnwys cerbydau modur, ddod i'r gwaith yn ffit i weithio.

Gallai peidio datgelu buddiant arall arwain at ganlyniad trychinebus, ac mae'n achosi risg ddifrifol i'r gyrrwr ac i'r Awdurdod. Gall gyrwyr sy'n methu â datgelu buddiannau eraill wynebu camau disgyblu.

Cynhelir hap-wiriadau ad hoc ar holl gerbydau'r cyngor heb unrhyw rybudd ymlaen llaw i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau.







## 4 | Cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch Gyrwyr

### Ffitrwydd i yrru

Mae'n ofynnol i bob gyrrwr sicrhau ei ffitrwydd i yrru a bod yn ffit i yrru wrth gyrraedd y gwaith.

Rhaid iddo hysbysu'r rheolwr llinell ar unwaith am unrhyw newid i'w statws sy'n golygu nad yw mwyach yn ffit i yrru (mae hyn yn cynnwys defnyddio meddyginiaethau dros dro).

Cyfrifoldeb pob gyrrwr yw sicrhau ei fod yn ffit yn feddygol i yrru ar briffordd gyhoeddus, waeth a yw'n gwneud hynny am resymau preifat i ddibenion cymdeithasol neu ddomestig neu er pleser, neu a yw'n gwneud hynny fel gweithiwr yn rhan o'i ddyletswyddau'n gysylltiedig â'r gwaith.

Disgwylir i yrwyr yn y gwaith ymgyfarwyddo â Pholisi Risg Ffyrdd Fflyd (FRRP) yr Awdurdod a dylent sicrhau eu bod yn ymarfer dulliau gyrru diogel bob amser. O dan Adran 7 ac 8 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, mae'n ddyletswydd ar bob gweithiwr i sicrhau ei iechyd, ei ddiogelwch a'i lesiant ei hun ac eraill pan fo yn y gwaith.

Mae hyn yn golygu bod dyletswydd arnoch yn ôl y gyfraith i sicrhau eich bod yn "gweithio" yn ddiogel, ac nad ydych yn ymwybodol yn gwneud unrhyw beth a allai achosi risg i chi'ch hun neu eraill (cydweithwyr neu aelodau o'r cyhoedd).

Rhaid i weithwyr sy'n gyrru wrth gyflawni eu dyletswyddau ddatgan i'w rheolwr llinell os ydynt yn dioddef o unrhyw gyflwr meddygol a allai amharu ar eu gallu i yrru'n ddiogel. Gellir wedyn atgyfeirio'r achos i sylw Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol y Cyngor, a fydd yn asesu'r gweithiwr unigol dan sylw ac yn cynghori ei reolwr llinell ynghylch sut i weithredu a mesurau unioni (lle bo'n berthnasol).

Bydd y Cyngor yn ceisio cynorthwyo gweithwyr i sicrhau eu bod yn cyrraedd sefyllfa lle bônt yn ffit i yrru.

Dylid trefnu archwiliadau meddygol sy'n ofynnol o dan y trefniadau trwyddedu ar gyfer cerbydau nwyddau mawr a thrwm drwy eich darparydd iechyd eich hun.

Beth bynnag fo'r rheswm, os datgenir nad yw gweithiwr yn ffit i yrru, rhaid i'r rheolwr llinell ryddhau'r gweithiwr o'i ddyletswyddau gyrru ar unwaith ac, mewn ymgynghoriad â'r gweithiwr, ystyried a oes ffyrdd addas iddo barhau i gyflawni ei ddyletswyddau arferol neu waith arall.

Os bydd unrhyw yrrwr a geir yn euog o drosedd gyrru sy'n cynnwys diod/cyffur, bydd yn rhaid iddo roi gwybod i'w reolwr llinell am hynny ar y cyfle cyntaf, a fydd wedyn yn hysbysu'r rheolwr fflyd.

Bydd gyrwyr a geir yn euog o drosedd o'r fath yn cael eu gwahardd ar unwaith rhag gyrru cerbydau'r Cyngor nes bod y gollfarn wedi darfod, ac efallai y byddant yn destun achos disgyblu.

Ni fydd gyrwyr yn ailddechrau dyletswyddau gyrru nes bod eu cais i wneud hynny wedi'i ystyried gan y Rheolwr Fflyd a'r Rheolwr Llinell.

Ni ddylai gyrwyr yrru dan ddylanwad diod alcoholig, cyffuriau meddwol na sylweddau eraill (gan gynnwys rhai meddyginiaethau 'dros y cownter') sy'n debygol o amharu ar farn neu'r gallu i ymateb yn gyflym ac yn briodol i amgylchiadau neu amodau'r ffordd.

Dylai gyrwyr sy'n cymryd cyffuriau presgripsiwn a allai amharu ar eu gallu i yrru hysbysu eu rheolwr llinell i ddechrau a chydweithredu'n llawn wrth benderfynu ar y dull mwyaf priodol o weithredu.

## Dylai gyrwyr ddeall y canlynol:

- Ei bod hi'n drosedd, o dan ddeddfwriaeth y Ddeddf Traffig Ffyrdd, i yrru cerbyd os ydych chi o dan ddylanwad rhai mathau o gyffuriau.
- Os ydych chi'n cael cyffuriau ar bresgripsiwn ar gyfer unrhyw gyflwr meddygol, mae'n bwysig cyfleu'r sefyllfa'n glir wrth unrhyw feddyg sy'n eich trin os yw'n ofynnol ichi yrru'n rhan o'ch cyflogaeth.
- Mae gan swyddogion heddlu bwerau i gynnal profion cyffuriau ar yrwyr ar ochr y ffordd.

Os canfyddir nad yw gyrrwr yn ffit i yrru dros dro, gan ei fod yn cymryd meddyginiaeth ar bresgripsiwn, ond ei fod yn dal i allu cyflawni dyletswyddau eraill, bydd yr Awdurdod yn gwneud pob ymdrech i ganfod swydd arall ar ei gyfer.

## Cosbau am yrru dan ddylanwad cyffuriau

Os cewch euogfarn am yrru o dan ddylanwad cyffuriau. efallai y byddwch yn cael:

- gwaharddiad rhag gyrru am isafswm o flwyddyn
- dirwy diderfyn
- hyd at 6 mis yn y carchar
- cofnod troseddol

Bydd eich trwydded yrru hefyd yn dangos eich bod wedi cael euogfarn am yrru o dan gyffuriau. Bydd hyn yn para am 11 o flynyddoedd.

Y gosb uchaf am achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiofal dan ddylanwad cyffuriau yw carchar am oes.

## Cosbau am yrru dan ddylanwad alcohol

Bod yn gyfrifol am gerbyd tra'r ydych yn uwch na'r terfyn cyfreithiol neu heb fod yn ffit ar gyfer



hynny am eich bod wedi yfed

Gallwch gael:

- 3 mis o garchar
- Hyd at £2,500 o ddirwy
- y posibilrwydd o gael eich gwahardd rhag gyrru

Gyrru neu geisio gyrru tra'r ydych yn uwch na'r terfyn cyfreithiol neu heb fod yn ffit i wneud hynny am eich bod wedi yfed

Gallwch gael:

Driving or attempting to drive while above the legal limit or unfit through drink

You may get:

- 6 mis o garchar
- dirwy ddiderfyn
- gwaharddiad rhag gyrru am flwyddyn o leiaf (3 blynedd os ceir dwy euogfarn o fewn 10 mlynedd)

Gwrthod darparu sbesimen o anadl, gwaed neu wrin i'w ddadansoddi

Gallwch gael:

- 6 mis o garchar
- dirwy ddiderfyn
- gwaharddiad rhag gyrru am flwyddyn o leiaf

Achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiofal dan ddylanwad alcohol

Gallwch gael:

- carchar am oes
- dirwy ddiderfyn
- gwaharddiad rhag gyrru am 5 mlynedd o leiaf
- prawf gyrru estynedig cyn cael eich trwydded yn ôl



## Troseddau Gyrru

Gwaherddir gyrru dan ddylanwad alcohol ac/neu sylweddau anghyfreithlon, ac os amheuir eich bod yn gwneud hynny byddwch yn cael eich gwahardd rhag eich dyletswyddau gyrru ar unwaith, ac ar ôl ymgynghori â'r gweithiwr unigol, yr Adran Adnoddau Dynol a rheolwyr llinell, penderfynir ar y dull mwyaf priodol o weithredu.

Os ydych chi'n cymryd meddyginiaeth ar bresgripsiwn, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn gallu gyrru. Fodd bynnag, os oes amheuaeth, siaradwch â'ch rheolwr llinell / goruchwylydd a fydd yn cynnig cymorth a chefnogaeth.

Os ydych chi wedi cyflawni unrhyw fath o drosedd gyrru sy'n effeithio ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith, mae'n ofynnol ichi hysbysu'ch rheolwr llinell/goruchwyliwr. Cymerir cofnod o'ch trosedd at ddibenion rheoli.

Bydd pob trosedd traffig ffyrdd sy'n gysylltiedig â gwaith yn cael ei hystyried yn achos o dorri rheolau disgyblaeth. O ganlyniad i hynny bydd yn cael ei hystyried gan reolwyr o dan weithdrefnau disgyblu'r Cyngor. Bydd troseddau traffig ffyrdd a gyflawnir y tu allan i'r gwaith yn cael eu hystyried yn unol â'ch gallu a'ch addasrwydd i gyflawni'r dyletswyddau sydd gennych yn gysylltiedig â'r gwaith.

Bydd pob achos o gyflawni troseddau traffig ffyrdd gan yrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm yn cael ei adrodd i'r Comisiynydd Traffig, sydd â'r pŵer i wahardd neu ddileu'r hawl i yrru Cerbyd Nwyddau Trwm.

Rydych chi'n gyfrifol am dalu'r holl ddirwyon gyrru sy'n gysylltiedig ag unrhyw droseddau traffig a gyflawnir. Cyfrifoldeb gyrwyr yw hysbysu eu rheolwyr llinell ar unwaith os cymerir eu trwydded oddi arnynt am unrhyw reswm.

## Cymhwysedd i Yrru

Mae'n rhaid bodloni amryw o ofynion cyfreithiol a gofynion y Cyngor cyn bod yn gymwys i yrru cerbyd y Cyngor.

Mae'n rhaid ichi:

- Ddal a chyflwyno'r trwydded yrru/ trwyddedau gyrru cywir i'r Cyngor
- wrth gychwyn eich swydd ac ar unrhyw bryd wedi hynny, fel bo'n briodol.
- Sicrhau bod pob aelod o staff Cerbyd Nwyddau Trwm yn llenwi ffurflen chwe-misol a bod pob aelod arall o staff yn derbyn gwiriad trwydded yrru blynyddol gennych chi fel y rheolwr llinell i wirio am gymhwysedd a thramgwyddau.
- Mynychu'r holl hyfforddiant / asesiadau gyrwyr perthnasol a nodir.
- Caniatáu i'r Cyngor gynnal gwiriadau trwydded yrru yn rheolaidd i wirio'r hawl i yrru.
- Hysbysu'r Cyngor am unrhyw drosedd(au) traffig neu hysbysiad o erlyniad arfaethedig y mae'n ofynnol i'r gweithiwr ei ddwyn i sylw ei Oruchwylydd/Rheolwr Llinell.
- Rhaid i bob gyrrwr Cerbyd Nwyddau Trwm neu unrhyw gerbyd sydd â chyfanswm pwysau dros 3,500 kg, gan gynnwys gyrwyr cargo, hysbysu'r Rheolwr Fflyd am unrhyw drosedd(au) traffig neu hysbysiad o fwriad i erlyn.
- Bod yn ymwybodol o (Reolau'r Ffordd Fawr) a chydymffurfio â'r rheolau hynny.
- Gwisgo gwregysau diogelwch a bod â rheolaeth lwyr dros y cerbyd, bob amser.
- Cadarnhau ffitrwydd i yrru, a bod yn ffit i yrru wrth gyrraedd y gwaith.
- Hysbysu'r Rheolwr Llinell ar unwaith am unrhyw newid i'w statws iechyd sy'n golygu nad yw'n ffit i yrru mwyach (mae hyn yn cynnwys cymryd meddyginiaeth dros dro).
- Os bydd gyrrwr yn mynd yn sâl wrth yrru, dylai stopio'r cerbyd cyn gynted ag y bo'n ddiogel i wneud hynny a hysbysu ei Oruchwylydd/Rheolwr Llinell.
- Cydymffurfio â'r llawlyfr hwn, Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch y Cyngor a dogfennau
- cysylltiedig sy'n trafod defnydd diogel a phriodol o gerbydau
- Cydweithiwch â'r Goruchwylydd/Rheolwr Llinell mewn perthynas â'r llawlyfr hwn.
- Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth traffig ffyrdd berthnasol.
- Cydymffurfio â phob signal, arwydd a chyfarwyddyd a roddir gan yr Heddlu neu Swyddogion eraill awdurdodedig.
- Cydymffurfio â phob rheoliad parcio – mae gan yr Heddlu a Swyddogion Gorfodi Sifil yr hawl i beri i gerbyd gael ei symud, ar unrhyw adeg, os yw'r cerbyd yn achosi rhwystr.
- Sicrhau nad yw eu gweithredoedd yn tanseilio Llawlyfr Gyrwyr y Cyngor, fel bo'n briodol.
- Sicrhau nad yw oriau gwaith/gyrru yn uwch na'r gyfarwyddeb amser briodol.
- Bod yn gyfrifol ac yn atebol am ofalu am gerbydau a ddarperir gan y Cyngor, cyflwr y cerbydau hynny a'r ymdriniaeth â nhw.
- Rhoi gwybod am bob digwyddiad sy'n gysylltiedig â cherbydau yn unol â gweithdrefn y Cyngor i roi gwybod am ddigwyddiad;
- Rhaid i bob gyrrwr lawrlwytho data'r tacograff yn wythnosol neu'n amlach yn ôl yr angen.
- Rhaid i bob gyrrwr Cerbyd Nwyddau Trwm gario ei gerdyn CPC bob amser a darparu ei drwydded i'w harchwilio gan Reolwr Trafnidiaeth y Cyngor, yn ôl yr angen.
- Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled na difrod i eiddo personol yng ngherbydau'r Cyngor. Dylid cuddio unrhyw beth sy'n eiddo i'r Cyngor, na ellir ei dynnu o'r cerbyd wrth ei adael, o'r golwg neu ei gloi yn y gist.
- Ni cheir defnyddio cerbydau'r Cyngor am unrhyw reswm arall ar wahân i gynnal Busnes y Cyngor. Ni cheir defnyddio cerbydau y tu allan i oriau busnes arferol, yn amodol ar gyfnod teithio rhesymol i'r gwaith ac oddi yno, lle rhoddwyd caniatâd gan y Goruchwylydd/Rheolwr Llinell.



- Ni chaniateir ichi gludo unrhyw deithwyr heb awdurdod.
- Rhaid hysbysu eich Goruchwylydd/ Rheolwr Llinell am unrhyw newidiadau (amgylchiadau meddygol) (cedwir copïau yn unol â Chanllawiau Trwyddedau Gyrru a'r Rheoliadau Diogelu Data).
- Ni chaniateir cario unrhyw nwyddau yng ngherbyd y Cyngor ar wahân i eiddo, offer neu gyfarpar a deunyddiau sy'n cael eu defnyddio ar ran y Cyngor, neu sy'n eiddo i'r Cyngor.
- Ni chaniateir cludo offer a deunyddiau yn yr un caban â phersonél.
- Defnyddio'r cerbyd yn y modd y bwriadwyd iddo ac yn unol â'r holl arferion gwaith diogel ac asesiadau risg sy'n ymwneud â gweithredu'r cerbyd hwnnw.
- Gall unrhyw fethiant neu achos o beidio cadw at y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau hyn fod yn destun gweithdrefnau disgyblu ac/neu alluogrwydd.

## Olrhain Asedau Cerbydau

Mae gan y rhan fwyaf o'n cerbydau dechnoleg olrhain asedau GPS bellach. Mae hyn yn galluogi'r Awdurdod i reoli ei adnoddau'n effeithlon a darparu gwasanaeth sy'n cynnig gwerth am arian. Atgoffir gyrwyr na ddylid ymyrryd â systemau olrhain sydd wedi'u gosod ar unrhyw gerbyd a ddarperir i'w ddefnyddio gan y Cyngor. Lle canfyddir bod systemau wedi cael eu difrodi'n fwriadol, gellir cymryd camau disgyblu yn erbyn drwgweithredwyr.

Mae monitro ymddygiad gyrwyr drwy delemateg yn hanfodol ar er mwyn hyrwyddo arferion gyrru diogel, lleihau'r defnydd o danwydd, a gwella effeithlonrwydd gweithredol.

## Systemau Teledu Cylch Cyfyng wedi'u Gosod ar Gerbydau

Mae Systemau Teledu Cylch Cyfyng wedi'u gosod ar nifer o gerbydau CSC. Mae'r systemau hyn wedi'u gosod i amddiffyn gyrwyr a chriwiau cerbydau lle gallent fod yn destun honiadau gan y cyhoedd o safonau gyrru gwael a/neu esgeulustod gweithredwyr.

Lle gwneir honiadau yn erbyn y Cyngor am ddifrod i gerbydau neu eiddo trydydd parti, gellir amddiffyn yn llwyddiannus rhag yr honiadau hyn drwy graffu ar y lluniau camera sydd wedi'u storio ar system TCC y cerbyd.

Er mwyn cynnal yr amddiffyniad hwn, mae'n hollbwysig nad oes unrhyw un yn tarfu ar y systemau TCC mewn unrhyw ffordd. Yn bwysig, ni ddylai unrhyw rwystrau na tharfu bwriadol i newid y maes gweledigaeth sefydlog amharu ar safle'r camerâu.

Os bydd camerâu wedi'u gosod ar gerbydau, bydd yn rhaid i yrwyr gynnwys y camerâu hynny yn rhan o weithdrefnau gwirio dyddiol y cerbyd. Rhaid iddynt fod wedi'u gosod yn gadarn yn eu lle, heb unrhyw rwystr ar eu traws ac, yn bwysig, rhaid sicrhau nad oes unrhyw faw o'r ffordd ar y lensys. Gall gyrwyr ofyn am gymorth cynorthwywyr wrth gynnal y gwiriadau hyn.

Mae trin gwybodaeth bersonol yn briodol yn bwysig iawn er mwyn darparu ein gwasanaethau ac rydym yn cynnwys yr hysbysiad preifatrwydd Olrhain Systemau Lleoli Byd-eang mewn cerbydau Cyngor (llyw.cymru)

## 5 | Ymddygiad Gyrru

### Asesiad Gyrrwr:

Ni fydd dyletswyddau gyrru yn cychwyn ar gyfer cerbydau/peiriannau penodedig nes i dîm hyfforddi gweithredol y Cyngor gynnal asesiad boddhaol o sgiliau gyrru. Mae hyn yn berthnasol i'r canlynol::

- **Categori B, C, C1, C1+E, D1, D1+E.**
- **Fforch godi – Gwrthbwyso**
- **Tractor**
- **Cerbydau Electronig**
- **Lorïau Codi - Ymlaen**
- **Cerbydau Rholer**
- **Cerbydau Torri Gwair**
- **Graeanwyr/erydr eira**
- **Sugnwyr ceunentydd**
- **Ysgubwyr Ffyrdd**
- **Ysgubwyr Ardal**
- **Cerbyd Rholer Deuol**
- **Gator**
- **Beic cwad**
- **Faniau bach – canolig**
- **Ceir**
- **Bysus mini**
- **Cerbydau Blwch Poeth**
- **JCB 180**
- **Cloddiwr 360**
- **Grillo**
- **Peiriant malu coed wedi'i osod ar drac**
- **Cerbydau casglu gwydr**
- **Cerbydau AHP**
- **Cerbydau sbwriel – pwysau amrywiol**
- **Llwythwr Telesgopig**

Cyn y gellir awdurdodi gweithiwr i yrru cerbyd neu offer peiriannau penodol, rhaid iddo dderbyn hyfforddiant ymgyfarwyddo ac asesiad ffurfiol ar y cerbyd(au) y mae'n ofynnol iddo ei yrru/eu gyrru.

Y Tîm Hyfforddiant Gweithredol sydd i roi'r cyfarwyddyd a chynnal a chofnodi'r asesiad. Ar ôl hyfforddiant ymgyfarwyddo, fel rhan o ymrwymiad i ddatblygu diwylliant gyrru diogel o fewn y cygor, mae'n ofynnol i reolwyr fonitro gweithgarwch gyrwyr, gan ymchwilio i unrhyw ddigwyddiadau a chymryd camau priodol lle bo angen. Lle codir pryderon, gall y rheolwyr ofyn am asesiad pellach a gynhelir gan ein Tîm Hyfforddiant Gweithredol.



### Ymddygiad Gyrwyr

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin bob amser yn disgwyl i'w weithlu o yrwyr gyrraedd y safonau uchaf, ac mae gan bob gyrrwr ran i'w chwarae o ran hyrwyddo ein delwedd gorfforaethol.

Un o'r mentrau sy'n rhoi cyfle i'r cyhoedd roi gwybod i'r Cyngor am achosion o safonau gyrru gwael yw'r cynllun 'Gyrrwr Da'.

Pan fydd cwyn yn dod i law, mae'n ofynnol cynnal ymchwiliad iddi. Yn dilyn hyn, os canfyddir bod ein gyrwyr wedi caniatáu i'w safonau gyrru ostwng yn is na'r hyn a ddisgwylir, mae ystod o fesurau ar gael i reolwyr, gan gynnwys ailhyfforddi i sicrhau y caiff achosion ailadroddus o yrru gwael eu hosgoi.

### Beth alla i ei wneud felly fel gyrrwr?

Dangoswch gwrteisi at yrwyr eraill ac osgoi gweithredoedd sy'n debygol o ysgogi ymateb niweidiol gan ddefnyddwyr eraill y ffordd neu gerddwyr. Arwyddo bob amser cyn newid lôn, gadael digon o le cyn symud yn ôl i lôn, peidio cymryd mwy nag un man parcio, peidio rhwystro cilfannau gwefru ceir trydan os nad ydych chi'n gyrru car trydan, gostwng eich goleuadau pan fydd cerbydau'n dod i'ch cyfarfod yn y nos, peidio creu rhwystr i yrwyr cyflymach yn y lôn oddiweddyd, ac ati.

Ceisiwch osgoi gyrru pan fyddwch chi'n teimlo dan straen, yn emosiynol neu wedi gwylltio. Ymlaciwch y tu ôl i'r llyw a bod yn fwy goddefgar tuag at yrwyr eraill. Defnyddiwch eich corn yn gynnil. Gall defnyddio'r corn mewn modd ymosodol wylltio pobl eraill. Peidiwch â thybio bod achosion lle bydd pobl eraill yn gyrru'n ymosodol yn fwriadol neu wedi'u hanelu atoch chi.

Peidiwch ag ymateb i yrwyr eraill sy'n chwilio am ffrae neu sy'n eich herio. Tynnwch i'r ochr a gadael iddyn nhw basio. Osgowch gyswllt llygad. Cadwch eich dwylo ar y llyw a pheidio gwneud ystumiau a'ch dwylo nac unrhyw ystumiau eraill a allai ddangos eich bod wedi gwylltio neu'n rhwystredig ynghylch eu hymddygiad.

Cynlluniwch ymlaen llaw a chaniatáu digonedd o amser ar gyfer eich taith. Osgowch sefyllfa lle rydych yn rasio i gyrraedd cyfarfod pwysig ac yn mentro ar y ffordd, ond i ennill ychydig funudau.

Pan fyddwch chi wedi parcio sicrhewch nad yw eich cerbyd yn peryglu diogelwch eraill nac yn peri niwsans iddynt. Osgowch adael yr injan yn segur am gyfnodau rhy hir. Bydd chwarae cerddoriaeth uchel yn aml yn peri annifyrrwch i'r gymdogaeth o'ch amgylch.

Yn syml, bydd trin defnyddwyr ffyrdd eraill fel yr hoffech chi eich hun gael eich trin yn helpu i ddiogelu enw da a delwedd gorfforaethol y cyngor.

## 6 | Teithwyr a Defnydd Heb Awdurdod

### Defnyddiwr Awdurdodedig Cerbyd

Defnyddiwr awdurdodedig cerbyd yw gyrrwr y dyrannwyd cerbyd cyngor iddo, neu a ystyrir yn ddefnyddiwr car achlysurol yn ei delerau cyflogaeth. Gofynnir i weithwyr sy'n defnyddio eu car eu hunain ar y sail hon i gyflawni gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith (a elwir yn Fflyd Lwyd) gadarnhau bod eu cerbyd wedi'i yswirio'n briodol at ddefnydd busnes, a bod ganddo MOT dilys. Os felly gwneir taliad yn seiliedig ar y milltiroedd a deithiwyd. (yn unol ag amodau hawlio milltiroedd car).

Dim ond i gludo nwyddau a/neu deithwyr ar fusnes y Cyngor y ceir defnyddio cerbydau, peiriannau ac offer y Cyngor. Ni cheir defnyddio cerbydau, peiriannau nac offer y Cyngor i ddibenion preifat.

Dim ond i gludo nwyddau a/neu deithwyr ar fusnes y Cyngor y ceir defnyddio cerbydau, peiriannau ac offer y Cyngor. Ni cheir defnyddio cerbydau, peiriannau nac offer y Cyngor i ddibenion preifat.

Dim ond pobl sydd ar fusnes sy'n gysylltiedig â'r Cyngor sydd ag awdurdod i gael eu cludo

yng ngherbydau'r Cyngor, fel a ganlyn:

- Gweithwyr y Cyngor sydd ar ddyletswydd.
- Pobl sy'n gwneud gwaith ar gyfer neu ar ran y Cyngor.
- Pobl sy'n cael eu cludo mewn argyfwng.
- Pobl sy'n cael eu cludo fel rhan o wasanaeth y Cyngor.
- Gweithwyr Atgyweirio/Gwasanaethu

Sylwch: Y gyrrwr sy'n parhau i fod yn gyfrifol yn gyfreithiol am sicrhau bod nwyddau/gwastraff y Cyngor yn cael eu cludo'n saff a diogel bob amser.

Ni chaniateir cludo unrhyw anifeiliaid, ar wahân i gŵn tywys, yn unrhyw un o'n cerbydau.

### Defnydd Heb Awdurdod

Rhaid i yrwyr cerbydau a ddarperir gan yr awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofynion canlynol:

- Ni chaniateir ichi gludo unrhyw deithwyr heb awdurdod.
- Ni cheir defnyddio cerbydau y tu allan i oriau busnes arferol, yn amodol ar gyfnod teithio rhesymol i'r gwaith ac oddi yno, lle rhoddwyd caniatâd gan y Goruchwylydd/Rheolwr Llinell.
- Ni ddylid mynd â cherbydau adref na'u parcio wrth gartref y gyrrwr dros nos heb ganiatâd yr awdurdod.
- Ni chaiff gyrwyr ganiatáu i unrhyw un, ar wahân i unigolion awdurdodedig, yrru eu cerbydau, am unrhyw reswm, ar unrhyw bryd.
- Ni ddylid gyrru cerbydau sy'n eiddo i unrhyw un, neu unrhyw fusnes arall mewn unrhyw amgylchiadau. Os yw cerbyd, er enghraifft, yn rhwystro mynedfa neu allanfa, dylech gael hyd i'w berchennog neu yrrwr a gofyn iddo ei symud o'r ffordd.

### Teithwyr Heb Awdurdod

Er mwyn helpu i reoli honiadau posibl ynghylch anafiadau i drydydd parti yn erbyn ein polisi fflyd, ni chaniateir cludo teithwyr heb awdurdod mewn unrhyw gerbyd cwmni.

Dyma'r rheolau ar gyfer cludo teithwyr:

- Ni chaniateir ichi gludo unrhyw deithwyr heb awdurdod
- Rhaid i bob teithiwr heb awdurdod eistedd mewn sedd wedi'i gosod yn y ffatri. Ni cheir cludo teithwyr yng nghefn faniau/tryciau cargo.
- Ni chaniateir cludo teithwyr o ymyl y ffordd, e.e. ffawdheglwyr, yn unrhyw gerbyd sy'n eiddo i'r awdurdod.
- Bydd pawb sy'n cael ei gludo yn un o gerbydau'r awdurdod yn defnyddio'r gwregysau diogelwch os ydynt wedi'u gosod (yn y seddau blaen a'r seddau cefn os yw'n berthnasol).



## 7 | Gyrru mewn Tywydd Garw

### Gyrru Gwahanol Amodau

Rhaid i yrwyr fod yn fwy gofalus wrth yrru mewn tywydd garw, gan y bydd peryglon na fyddant fel arfer yn dod ar eu traws yn achosi perygl ychwanegol. Os nad ydyn nhw'n barod am hynny, bydd gyrwyr yn cynyddu'n sylweddol y risg o fod mewn digwyddiad traffig, felly drwy ddilyn ychydig o gamau syml gallwch leihau'r posibilrwydd o ychwanegu at ystadegau damweiniau'r awdurdod.

Ceir rhai canllawiau isod ar yrru mewn gwahanol amodau:

### Gwelededd Llai

Rhaid ichi ddefnyddio'r prif oleuadau blaen pan fydd gwelededd wedi'i leihau'n sylweddol. Bydd hyn fel arfer mewn sefyllfa lle na allwch chi weld ymhellach na 100 metr (328 troedfedd). Gallwch hefyd ddefnyddio goleuadau niwl blaen neu ôl ond rhaid ichi eu diffodd wrth i weledd wella


### Tywydd Gwlyb

Mewn tywydd gwlyb, bydd pellteroedd stopio o leiaf ddwywaith y pellteroedd sydd eu hangen wrth stopio ar ffyrdd sych. Y rheswm am hyn yw bod gan eich teiars lai o afael ar y ffordd. Mewn tywydd

- Dylech gadw ymhell yn ôl o'r cerbyd o'ch blaen. Bydd hyn yn cynyddu eich gallu i weld a chynllunio ymlaen llaw.
- Os na fydd y llyw yn ymateb wrth ichi ei symud, mae hynny'n debygol o olygu bod dŵr yn atal y teiars rhag gafael yn y ffordd. Codwch eich troed yn raddol oddi ar y sbardun ac arafu'n raddol.
- Gall y glaw a'r dŵr sy'n tasgu o gerbydau ei gwneud hi'n anodd gweld a chael eich gweld.
- Byddwch yn ymwybodol o'r perygl y gall diesel sydd wedi'i golli wneud arwynebeddau'n llithrig iawn.
- Cymrwch ofal ychwanegol o amgylch cerddwyr, beicwyr, beicwyr modur a rhai sy'n marchogaeth.



## Rhew ac Eira



Yn y gaeaf, gwiriwch ragolygon y tywydd lleol am rybuddion rew neu eira. Peidiwch â gyrru yn yr amodau hyn onid yw eich taith yn hanfodol. Os yw'n hanfodol, byddwch yn ofalus iawn a chaniatáu rhagor o amser ar gyfer eich taith. Cyn ichi gychwyn:

- Rhaid ichi allu gweld, felly cliriwch yr holl eira a'r rhew oddi ar eich holl ffenestri.
- Rhaid ichi sicrhau bod y goleuadau'n lân a bod platiau cofrestru yn gwbl weladwy a darllenadwy.
- Gwnewch yn siŵr fod y drychau'n glir a bod yr holl niwl wedi'i dynnu oddi ar y ffenestri.
- Tynnwch yr holl eira a allai ddisgyn i lwybr defnyddwyr eraill y ffordd.
- Gwiriwch nad oes unrhyw oedi ar y llwybr rydych chi wedi'i gynllunio, ac na ragwelir unrhyw gwympoedd eira na thywydd garw pellach.

### Wrth yrru drwy eira neu dywydd rhewllyd:

- Gyrrwch yn ofalus, hyd yn oed os yw'r ffyrdd wedi cael eu trin.
- Cadwch ymhell yn ôl o'r defnyddiwr ffordd o'ch blaen oherwydd gall pellteroedd stopio fod ddeg gwaith yn fwy nag ar ffyrdd sych.
- Cymrwch ofal wrth oddiweddyd cerbydau sy'n gwasgaru halen neu ddeunydd arall i doddi'r rhew, yn enwedig os ydych chi ar feic neu feic modur.
- Gwyliwch am erydr eira a all daflu eira allan i'r naill ochr a'r llall. Peidiwch â'u goddiweddyd onid yw'r lôn rydych chi'n bwriadu ei defnyddio wedi'i chlirio.
- Byddwch yn barod i amodau'r ffordd newid dros bellteroedd cymharol fyr.
- Gwrandewch ar fwletinau teithio a sylwi ar arwyddion ac arnynt negeseuon newidiol, a all ddarparu gwybodaeth am amodau'r tywydd, y ffordd a'r traffig o'ch blaen.

**Gyrrwch yn ofalus iawn pan fo'r ffyrdd yn rhewllyd. Osgowch weithredu'n sydyn oherwydd gallai hynny beri ichi golli rheolaeth. Dylech chi bob amser wneud y canlynol:**

- Gyrrwch yn araf mewn gêr mor uchel ag sy'n bosibl; cyflymu a brecio'n ysgafn iawn.
- Gyrrwch yn arbennig o araf ar gorneli lle rydych chi'n fwy tebygol o golli rheolaeth. Breciwch yn gynyddol ar y darn syth o'r ffordd cyn ichi gyrraedd tro yn y ffordd. Ar ôl arafu, llywiwch yn llyfn o amgylch y tro, gan osgoi gweithredu'n sydyn.
- Gwiriwch afael eich teiars ar wyneb y ffordd mewn eira neu rew drwy ddewis lle diogel i frecio'n ysgafn. Os yw'n ymddangos nad yw'r llyw yn ymateb, gallai hynny olygu bod rhew ar y ffordd, a bod eich cerbyd yn colli gafael arni. Wrth deithio ar rew, ni fydd teiars yn gwneud prin unrhyw sŵn.

## Tywydd Gwyntog

Cerbydau ag ochrau uchel y mae tywydd gwyntog yn effeithio arnynt fwyaf, ond gall hyrddiau cryf hefyd chwythu car, beic, beic modur neu rywun ar geffyl oddi ar eu llwybr. Gall hyn ddigwydd ar ddarnau agored o ffyrdd lle ceir gwyntoedd croes cryf, neu wrth basio pontydd neu fylchau mewn gwrychoedd.

Mewn tywydd gwyntog iawn, gall yr aflonyddwch a achosir gan gerbydau mawr amharu ar eich cerbyd. Mae hyn yn effeithio ar feicwyr modur yn arbennig, felly cadwch yn ddigon pell oddi wrthynt wrth iddynt oddiweddyd cerbyd ag ochrau uchel.





## Niwl

Cyn mynd i mewn i niwl, gwiriwch eich drychau ac yna arafu. Os dangosir y gair 'Niwl' ar signal ar ochr y ffordd ond bod y ffordd yn glir, byddwch yn barod am gwmwl niwl neu niwl tameidiog sy'n symud o'ch blaen. Hyd yn oed os yw'n ymddangos ei fod yn clirio, gallwch eich cael eich hun yn sydyn iawn mewn niwl trwchus.

### Wrth yrru mewn niwl dylech:

- Defnyddiwch eich goleuadau yn ôl yr angen.
- Cadwch bellter diogel rhyngoch a'r cerbyd o'ch blaen. Gall goleuadau ôl roi ffug-deimlad o ddiogelwch.
- Sicrhewch eich bod yn gallu stopio mewn da bryd o fewn y pellter y gallwch ei weld yn glir. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar draffyrdd a ffyrdd deuol, gan fod cerbydau'n teithio'n gyflymach.
- Defnyddiwch eich sychwyr sgrin wynt a'ch diniwlwyr.
- Cadwch olwg am yrwyr eraill nad ydynt yn defnyddio prif oleuadau blaen.
- Peidiwch â chyflymu i fynd ymhellach oddi wrth gerbyd sy'n gyrru'n rhy agos y tu ôl ichi.
- Gwiriwch eich drychau cyn arafu. Dylech wedyn ddefnyddio eich breciau fel bod eich goleuadau brecio yn rhybuddio gyrwyr y tu ôl ichi eich bod yn arafu.
- Stopiwch yn y safle cywir wrth gyffordd lle cyfyngir ar weledededd, a gwrando am draffig. Pan fyddwch chi'n siŵr ei bod hi'n ddiogel ichi ddod allan, gwnewch hynny'n bendant heb oedi mewn safle sy'n eich rhoi ar lwybr cerbydau sy'n dod tuag atoch.

Rhaid ichi beidio defnyddio goleuadau niwl blaen nac ôl oni chyfyngir yn ddifrifol ar weledededd, oherwydd gallant ddallu defnyddwyr eraill y ffordd, a gwneud eich goleuadau brecio yn llai eglur. Rhaid ichi eu diffodd wrth i weledededd wella.

## Tywydd Poeth

Cadwch eich cerbyd wedi'i awyru'n dda er mwyn osgoi teimlo'n gysglyd. Byddwch yn ymwybodol y gallai wyneb y ffordd feddalu neu os bydd hi'n glawio ar ôl cyfnod o sychder gallai droi'n llithrig. Gallai'r amodau hyn effeithio ar eich gallu i lywio a brecio. Os cewch eich dallu gan olau haul llachar, arafwch a stopio os oes angen.

## 8 | Gwiriadau Cerbyd Dyddiol gan y Gyrrwr



Mae'n rhaid dilyn cyfundrefn cynnal a chadw ffurfiol cyfnodol ar yr holl gerbydau a ddarperir gan yr awdurdod. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol, ac yn ofyniad a gaiff ei archwilio'n allanol.

Mae gan yrwyr ein cerbydau hefyd ran bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod ein cerbydau'n cael eu gweithredu mewn cyflwr diogel gan gydymffurfio â'r gyfraith. Mae'n ofynnol cynnal gwiriadau cynnal a chadw ataliol dyddiol ar bob cerbyd cyn ei ddefnyddio.

Y gyrrwr fydd yn cwblhau'r gwiriadau hyn, a rhaid cofnodi bod y gwiriadau hyn wedi'u cynnal ar System Adrodd Diffygion yr Awdurdod.

Cyfrifoldeb pob gyrrwr yw sicrhau bod ei gerbyd yn addas i'w ddefnyddio ar y ffordd cyn, yn ystod ac ar ôl iddo fynd â'r cerbyd ar y ffordd. Dylai'r gyrrwr gynnal gwiriad dyddiol ar ôl defnyddio'r cerbyd, yn ogystal â gwiriad dyddiol cyn ei ddefnyddio.

### Adrodd am Ddiffygion Cerbydau

Pan fyddwch chi'n darganfod diffyg ar gerbyd, naill ai wrth gynnal gwiriad ar eich cerbyd neu wrth gyflawni gweithgareddau'n gysylltiedig â gwaith, rhaid ichi gofnodi'r diffygion ar unwaith drwy system adrodd diffygion y cerbyd, a hysbysu eich rheolwr llinell/goruchwylydd er mwyn atgyfeirio'r achos i sylw derbynfa'r fflyd. Dylid rhoi gwybod am bob diffyg ar unwaith. Dylid gwneud hyn onid yw'r diffyg yn amharu ar addasrwydd/diogelwch eich cerbyd i'w yrru ar y ffordd. Yn yr amgylchiadau hynny, rhaid i chi stopio eich cerbyd a'i barcio mor ddiogel ag sy'n bosibl a dilyn y gweithdrefnau ar gyfer cerbyd sydd wedi torri/achub.

Dylai gyrwyr ddefnyddio system swyddogol yr awdurdod ar gyfer adrodd am ddiffygion ar gerbydau er mwyn cofnodi diffyg.

Ni fydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn caniatáu nac yn esgusodi defnyddio'r cerbyd (na threlar) os ceir diffyg a allai olygu ei fod yn anaddas i'r ffordd fawr. Gall hyn effeithio ar eich trwydded yrru.

Bydd hyfforddiant gan y Tîm Hyfforddiant Gweithredol yn cynnwys gwiriadau dyddiol wrth roi hyfforddiant i yrwyr.

### Archwiliadau ac Atgyweiriadau

Bydd yr Uned Rheoli Fflyd yn cynnal archwiliadau a gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio ar gerbydau yn ein gweithdai cerbydau, oni chytunir fel arall. Ni ddylech mewn unrhyw amgylchiadau fynd ag un o gerbydau'r Cyngor at atgyweiriwr cerbydau heb ei awdurdodi.

Pan fydd hi'n bryd cynnal archwiliad ar eich cerbyd, byddwch yn cael gwybod am hynny drwy eich rheolwr llinell/goruchwylydd. Ar gyfer cerbydau nad ydynt yn dod i mewn, oni threfnwyd ymlaen llaw iddynt beidio dod, anfonir 'rhybudd o waharddiad' sy'n golygu na cheir defnyddio'r cerbyd ac eithrio er mwyn mynd i'r gweithdy er mwyn cwblhau'r gwaith angenrheidiol.

Bydd yn ofynnol i weithwyr sy'n defnyddio'u cerbyd eu hunain ar gyfer gweithgareddau gwaith sicrhau bod eu cerbyd yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol ac mewn cyflwr addas i'w ddefnyddio ar y ffordd fawr.



### Atgyweiriadau Heb eu Trefnu

Bydd unrhyw waith atgyweirio heb ei drefnu yn cael ei gwblhau yn ein gweithdai cerbydau oni chytunir fel arall. Ni ddylech mewn unrhyw amgylchiadau fynd ag un o gerbydau'r Cyngor at atgyweiriwr cerbydau heb ei awdurdodi.

### Cyfnodau Rhwng Archwiliadau

Ar hyn o bryd mae'r archwiliadau diogelwch cyfnodol wedi'u hamserlennu fesul y cyfnodau a ganlyn:

- 6 wythnos ar gyfer Cerbyd Nwyddau Trwm
- 17 wythnos ar gyfer Cerbyd Masnachol Ysgafn

Bydd yr Uned Rheoli Fflyd yn anfon e-bost at y Goruchwylwyr/Rheolwyr Llinell i'w hysbysu ymlaen llaw ynghylch dyddiadau archwilio diogelwch cyfnodol pob cerbyd.

Ar gyfer cerbydau nad ydynt yn dod i mewn, oni threfnwyd ymlaen llaw iddynt beidio dod, anfonir 'rhybudd o waharddiad' sy'n golygu na cheir defnyddio'r cerbyd ac eithrio er mwyn mynd i'r gweithdy er mwyn cwblhau'r gwaith angenrheidiol.

### Cyflwyno'r cerbyd i'w Archwilio

Rhaid cyflwyno cerbydau, peiriannau ac offer ar gyfer archwiliadau diogelwch cyfnodol ar y diwrnod penodedig. Rhaid glanhau'r cerbyd a'i gyflwyno'n briodol fel bo modd gwneud y gwaith perthnasol. Mae hyn yn cynnwys corff y cerbyd. Rhaid symud pob eiddo personol o'r cerbyd cyn ei gyflwyno i'w archwilio neu ei atgyweirio, yn enwedig y cerbydau hynny sydd â chaban sy'n gogwyddo.

### Diffygion

Dylid rhestru unrhyw ddiffygion sydd angen sylw nad ydynt yn gysylltiedig â diogelwch yn adroddiad diffygion dyddiol y gyrrwr. Dylid wedyn hysbysu'r Goruchwylydd/Rheolwr Llinell ynghylch y mater, ynghyd â'r Uned Rheoli Fflyd. Os bydd angen i'r cerbyd aros yn y gweithdy yn ystod yr archwiliad, bydd y rheolwr llinell/goruchwylydd yn cael gwybod.

### Rhoi Tanwydd

Caiff system danwydd gyfrifiadurol y Cyngor ei rheoli gan yr Uned Rheoli Fflyd. Mae hyn hefyd yn cynnwys dosbarthu a monitro ychwanegyn tanwydd 'Adblue' a ddefnyddir i ostwng allyriadau gwacáu yn unol â deddfwriaeth gyfredol a deddfwriaeth sydd ar ddod.

### Petrol:

Bydd gan y cerbyd gerdyn tanwydd a PIN.

Bydd angen ichi gysylltu â envbsufleet@sirgar.gov.uk i archebu eich cerdyn tanwydd ac i gael eich PIN.

Rhaid i yrwyr roi eu darlleniad odomedr [darlleniad milltiroedd] i'r gweithiwr wrth y til yn yr orsaf danwydd ar ôl cyflwyno'r cerdyn tanwydd. Nodir rhif cofrestru'r cerbyd ar y cerdyn tanwydd, ac ni cheir ond ei ddefnyddio ar gyfer y cerbyd hwn.

### Diesel:

Ceir ffobiau tanwydd ar allweddi'r cerbyd i'ch galluogi i lenwi eich cerbyd â Diesel yn ein depos.

Bydd angen ichi gysylltu â envbsufleet@sirgar.gov.uk i gael eich PIN.

### Trydan:

Mae gennym dudalen fewnrwyd Cerbydau Trydan bwrpasol ac arni wybodaeth i'r staff, gan gynnwys Canllaw Gwefru. Mae gennym amrywiaeth o bwyntiau gwefru ledled y sir.

## Difrod

Mae gan bob gyrrwr ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw wrthdrawiadau/difrod i gerbyd, eiddo neu offer y Cyngor, a rhaid iddo sicrhau y rhoddir gwybod am bob digwyddiad.


Mae gan bob gyrrwr ddyletswydd i roi gwybod am ddamweiniau / difrod i gerbydau, waeth a ydynt ar fai ai peidio. **Mae angen nodi enw'r gyrrwr diwethaf ar ffurflen adrodd am ddamweiniau. Os yw'r cerbyd yn wag ar y pryd, dylid nodi hynny ar y ffurflen hefyd.**

**Os na ddarperir gwybodaeth y gyrrwr ar ffurflen ddamweiniau, ni ellir gwneud hawliad a bydd yr Adran Rheoli Risg/Fflyd yn ailgodi tâl ar yr adran dan sylw am atgyweirio'r cerbyd.**

Rhaid rhoi gwybod i'r Rheolwr Llinell/Goruchwylydd am unrhyw ddifrod a ganfyddir ar gerbydau. Rhaid i Reolwyr Llinell/Goruchwylwyr roi gwybod i'r Uned Rheoli Fflyd ar unwaith. Bydd angen i'r Rheolwr Llinell/Goruchwylydd ganfod beth wnaeth achosi'r difrod a phwy oedd yn gyfrifol am y cerbyd dan sylw ar y pryd.

Ailgodir tâl gan reolwr yr adran am unrhyw ddifrod a geir ar gerbydau na roddwyd gwybod amdano, a darperir gwybodaeth arall am y fflyd er mwyn helpu i fonitro a rheoli cyllidebau.

## Glanweithdra





Mae'n bwysig eich bod yn cadw'r tu mewn a'r tu allan i'ch cerbyd yn lân a thaclus bob amser.

Dylid rhoi sylw arbennig i wydr y cab, drychau gyrru, platiau rhif cofrestru a goleuadau ffordd. Mae hyn er budd gwelededd, diogelwch ffyrdd, iechyd a diogelwch ac i gyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Cyngor i'r cyhoedd.

Rhaid storio'r holl offer a deunyddiau'n briodol yn yr ardal lwytho.

Rhaid golchi allan a draenio dŵr o'r system ysgubo ar bob ysgubwr mecanyddol ar ddiwedd pob sifft.

Rhaid glanhau pob Cerbyd Casglu Sbwriel yn rheolaidd i atal gwastraff rhag cronni ar rannau symudol (codwyr biniau, plât godi ac ati) a dylid draenio unrhyw hylif sy'n cronni yn ystod y broses casglu gwastraff yn rheolaidd mewn cyfleuster awdurdodedig.

Rhaid i staff gael gwared ag unrhyw sbwriel o'r tu mewn i gerbydau'r Cyngor ar ddiwedd y sifft.

Os bydd cerbydau/offer yn cael eu dychwelyd mewn cyflwr gwael, bydd yr Uned Rheoli Fflyd yn hysbysu eich rheolwr llinell/goruchwylydd ynghylch hyn, a chanlyniad hynny fydd trosglwyddo'r holl gostau glanhau i adran y defnyddiwr.

Sylwch: Cynhelir hapwiriadau ar gerbydau i sicrhau bod staff yn cadw at safonau glanweithdra cerbydau.



# 9 | Llwythi Cerbydau

## Llwytho'n Saff a Diogel

Bellach mae systemau pwyso byw wedi'u gosod ar lawer o gerbydau gwastraff y Cyngor. Dylid monitro'r rhain drwy gydol y sifft a gweithredu os bydd unrhyw gerbyd neu echel yn myn dros ei b/phwysau.

Hyd yn oed os ydych chi'n gyrru math arall o gerbyd cyngor, neu un nad yw'n cynnwys systemau pwyso, dylech fod yn ymwybodol o'r rheolau a'r rheoliadau sy'n gysylltiedig â llwytho eich cerbyd. Os ydych chi'n gyrru cerbyd tipio cawell neu fath arall o gerbyd arbenigol, rhaid ichi dderbyn hyfforddiant ar sut i ddiogelu eich llwyth yn effeithiol cyn gweithredu'r cerbyd.

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol trefnu a diogelu llwyth fel nad oes unrhyw debygolrwydd o berygl, anaf na niwsans, boed hynny i'r rhai sydd yn y cerbyd neu ar y ffordd.

Cod ymarfer ar ddiogelwch llwythi, 'Diogelwch Llwythi ar Gerbydau wedi cael ei gyhoeddi gan yr Adran Drafnidiaeth.

Dyma rai pwyntiau allweddol:

- Dylai'r llwyth fod yn sefydlog ac wedi'i wasgaru er mwyn cadw'r canolbwynt disgyrchiant mor isel ag sy'n bosibl.
- Gwnewch yn siŵr fod y llwyth wedi'i wasgaru'n gyfartal. Dylid cymryd gofal arbennig i osgoi gorlwytho echelydd – gall hyn ddigwydd hyd yn oed os nad ydych wedi mynd heibio terfyn pwysau gros y cerbyd
- Gall newidiadau i wasgariad y llwyth wrth weithio achosi llwyth gormodol ar echelydd, oni chaiff y llwyth ei ailwasgaru. Gall hyn effeithio'n ddifrifol ar eich gallu i lywio a brecio eich cerbyd.
- Pryd bynnag y byddwch chi'n stopio yn ystod taith, gwiriwch fod eich llwyth yn gadarn yn ei le.

## Capasiti Teithwyr/Llwyth

**Ni fydd y Cyngor, mewn unrhyw amgylchiadau, yn cymeradwyo defnydd anghyfreithlon o gerbydau o ran gorlwytho/cludo teithwyr.**

**Waeth beth fo'r math o gerbyd a ddefnyddir a'r llwythi/teithwyr y byddwch yn eu cludo, eich cyfrifoldeb chi, fel y gyrrwr, yw sicrhau bod teithwyr yn saff a diogel. Ni ddylai llwythi ymwthio allan y tu hwnt i'r uchafswm cyfreithiol ac ni chaiff y llwythi yr ydych yn eu cludo fyth bwyso mwy na'r terfyn cyfreithiol uchaf ar gyfer dyluniad ac adeiladwaith eich cerbyd. Os bydd yr awdurdodau gorfodi yn eich stopio ac yn darganfod bod eich cerbyd yn cario llwythi gormodol neu anniogel, gallech gael eich erlyn yn bersonol, gan wynebu dirwyon o hyd at £5,000 am bob trosedd.**

**O ran Cerbydau Nwyddau, mae capasiti cludo mwyaf cerbydau wedi'i restru ar blât gwneuthurwr y cerbyd neu'r 'dystysgrif platio'. Bydd uchafswm capasiti Cerbydau Cludo Teithwyr wedi'i ddangos y tu mewn i salŵn y cerbyd, ond os oes amheuaeth, dylech gysylltu â'r Uned Rheoli Fflyd i ddechrau, a fydd yn darparu'r wybodaeth hon.**

**Yn ogystal â hyn, gall y Tîm Hyfforddiant Gweithredol ddarparu hyfforddiant unigol os yw eich rheolwr llinell neu eich Uned Rheoli Fflyd yn teimlo bod angen hynny.**



## Llwythi sy'n ymwthio allan

Ni chaiff llwythi fel arfer ymwthio allan mwy na 30cm ar y naill ochr a'r llall i gerbyd neu drelar.

Dylai gyrwyr sicrhau bod llwythi sy'n ymwthio llai na 1m neu lai na 2m at yn ôl yn hawdd eu gweld

## Llwythi sy'n Ymwthio Allan - Lled

| | |
|---|---|
| Hyd at 2.9m o Gyfanswm Lled | Gwneud Dim |
| Dros 2.9m i 3.5m | Byrddau wedi'u marcio â streipiau coch a gwyn ar flaen a chefn y darn sy'n ymwthio allan, a dau ddiwrnod o rybudd i'r Heddlu. |
| Dros 3.5m | Byrddau wedi'u marcio, yr Heddlu a chynorthwyydd |

## Llwythi sy'n Ymwthio Allan - Ymlaen

| | |
|---|---|
| Hyd at 2m | Gwneud Dim |
| Dros 2m i 3.05m | Bwrdd wedi'i farcio ar ben y darn sy'n ymwthio ymlaen, byrddau wedi'u marcio ar bob ochr i'r darn sy'n ymwthio allan a chynorthwyydd |
| Dros 3.5m | Marcwyr ar ben y darn sy'n ymwthio allan ac ar y naill ochr a'r llall iddo, Byrddau, cynorthwyydd a 2 ddiwrnod o rybudd i'r Heddlu. |




# 10 | Tynnu

## Defnyddio Trelars

Cyn tynnu trelar, gwiriwch fod y cyplysiad tynnu yn addas, a bod y goleuadau ar y trelar, y cebl torri'n rhydd a'r breciau yn gweithio'n iawn. Gwnewch yn siŵr fod y trelar yn arddangos plât rhif cofrestru'r cerbyd sy'n tynnu. Dylai gyrwyr sicrhau bod modd tynnu'r trelar ac nad yw pwysau'r llwyth yn fwy na 80% o bwysau'r cerbyd sy'n tynnu. Ni cheir mynd heibio i Uchafswm Màs Awdurdodedig (MAM) y cerbyd a'r trelar gyda'i gilydd, gan gynnwys uchafswm y llwyth y gellir ei gludo'n ddiogel pan fydd yn cael ei ddefnyddio ar y ffordd (ceir hyd i'r manylion ar blât data'r cerbyd y tu mewn i'r cerbyd).

Os oes angen ichi ddefnyddio cerbyd yr Awdurdod fel cerbyd tynnu, rhaid ichi gadw at y cyfreithiau perthnasol.


## Cyfyngiadau penodol ar gyfer trelars



**Os yw'r cerbyd tynnu yn pwyso 3500kg neu lai**

**(Pwysau Gros y Cerbyd neu GVW)**

- Hyd (heb gynnwys y cyplysiad a'r bar tynnu) 7.0m
- Uchafswm Lled 2.3m



**Os yw'r cerbyd tynnu yn pwyso mwy na 3500kg GVW**

- Hyd (heb gynnwys y cyplysiad a'r bar tynnu) 12m (o leiaf 4 olwyn)
- Uchafswm Lled 2.55m
- Hyd y cerbyd tynnu a'r trelar gyda'i gilydd 18m
- Uchafswm llwyth yn hongian drosodd o gefn y trelar 3.05m



**Cwestiynau Cyffredin:**

### Oes angen trwydded yrru arbennig arnaf i dynnu?

Rhaid i chi gael trwydded yrru lawn i yrru cyfuniadau o gerbydau a threlars

sy'n pwyso hyd at 8.25 tunnell. Fodd bynnag, os gwnaethoch chi basio'ch prawf ar ôl Ionawr 1af,

1997 mae'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol:

- Cerbydau hyd at 3.5 tunnell a dim mwy nag wyth sedd teithiwr (h.y. cerbydau a elwir yn swyddogol yn gerbydau Categori B ac sy'n geir arferol) gyda threlar 750kg (cyfanswm o 4.25 tunnell o Uchafswm Màs Awdurdodedig neu MAM).
- Cerbydau categori B gyda threlars mwy h.y. mwy na 750kg, ar yr amod nad yw'r Uchafswm Màs Awdurdodedig (MAM) cyfunol yn fwy na 3.5tunnell, ac nad yw MAM gros y trelar yn uwch na phwysau gweili (di-lwyth) y cerbyd tynnu.
- Mae cerbydau dros 3500kg MAM wedi'u dosbarthu'n gerbydau nwyddau mawr. Er mwyn gallu tynnu cyfuniadau nad ydynt yn bodloni'r rheol hon, rhaid pasio prawf ychwanegol.

### Beth yw'r gwahaniaeth rhwng trelars heb freciau a threlars brecio?

Does dim breciau ar rai trelars, felly bydd yr holl frecio yn digwydd ar y car sy'n eu tynnu.

Mae breciau wedi'u gosod ar drelars brecio, a elwir yn aml yn 'freciau gor-redeg'. Bydd breciau'r trelar yn dod yn weithredol drwy gyswllt mecanyddol sy'n gysylltiedig â'r bar tynnu. Pan fydd y car yn brecio, mae'n gyrru grym drwy'r bar tynnu sydd wedyn yn actifadu'r cysylltiad i weithredu breciau'r trelar.

### Beth yw'r pwysau mwyaf y gallaf ei gario yn fy nhrelar?

Trelar heb freciau Uchafswm pwysau gros trelar o 750kg neu hanner pwysau palmant y cerbyd tynnu, pa un bynnag sydd leiaf. Trelar â breciau (Trelar Brecio): Uchafswm pwysau gros trelar o 3500kg.

### Beth yw'r terfynau cyflymder wrth dynnu?

60mya ar draffyrdd a ffyrdd deuol, 50mya ar ffyrdd eraill onid oes terfyn cyflymder is yn weithredol. Os yw'r cyfuniad cerbyd/trelar dros yr Uchafswm Màs Awdurdodedig o 7500kg, ceir cyfyngiad pellach o 50mya ar ffyrdd deuol.

### Beth os yw fy llwyth yn hongian dros ben y trelar?

Os yw'n hongian rhwng 1m a 2m dros ben y trelar, sicrhewch fod y pen yn gwbl glir drwy glymu darn o gadach neu eitem debyg arno i rybuddio gyrwyr y tu ôl ichi. Os yw'n hongian rhwng 2m a 3.05m dros ben y trelar, rhaid gosod bwrdd wedi'i farcio arno a'i oleuo gyda'r nos. Os yw'r darn sy'n hongian dros ben y trelar yn fwy na 3.05m, rhaid cludo cynorthwyydd a hysbysu'r heddlu 2 ddiwrnod cyn cychwyn y daith.

### Oes angen plât wedi'i farcio â 'Cerbyd Hir' arnaf?

Does ond angen hyn ar gyfer trelars dros 3500kg neu lle bo pwysau'r cerbyd sy'n tynnu dros 7,000kg o bwysau gros (lorïau fel arfer). Os bydd angen y platiau, bydd y rhai sydd eu hangen yn amrywio yn dibynnu ar hyd y cerbyd. Rhaid ichi wneud yn siŵr nad yw llwythi yn ymwthio allan ymhellach na 305mm ar y naill ochr a'r llall i'r trelar, hyd at uchafswm lled o 2.9m. Os ydynt yn ymwthio allan ymhellach na hynny, bydd yn rhaid ichi hysbysu'r heddlu ddau ddiwrnod cyn cychwyn taith.





## 11 | Croesfannau Rheilffordd – Camau Gweithredu'r Gyrrwr




Cydnabyddir bod gyrru yn weithgarwch risg uchel, ac mae traean o leiaf o'r holl farwolaethau ar y ffordd yn cynnwys cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio i ddibenion gwaith Er bod llawer o beryglon yn amlwg i yrwyr proffesiynol a phrofiadol, nid ydynt mor amlwg i eraill. Diolch byth, mae nifer blynyddol y digwyddiadau sy'n cynnwys cerbydau a chroesfannau rheilffordd yn gymharol fach, ond er hynny, mae hyd yn oed un digwyddiad yn ormod. Mae potensial i bob digwyddiad achosi nifer sylweddol o farwolaethau a difrod ar raddfa eang, felly mae'n hanfodol cadw'n llym at y mesurau diogelwch sydd ar waith i osgoi unrhyw digwyddiad posibl. Yn wir, gallai unrhyw yrrwr nad yw'n dilyn y rheolau'n gysylltiedig â defnyddio croesfannau rheilffordd yn ddiogel gael ei erlyn yn y Llysoedd.

### Croesfannau Rheilffordd

Bydd trenau'n aml yn teithio dros groesfannau'n gyflym, sy'n golygu bod yn rhaid eu trin â'r parch mwyaf. Rhaid ichi aros yn effro drwy chwilio am arwyddion rhybudd. Bydd y rhain yn rhoi gwybodaeth ichi am y math o groesfan i'w disgwyl. Wrth ichi nesáu at groesfannau, byddwch yn effro bob amser ac yn barod i stopio os bydd y goleuadau ymlaen, neu os clywch glychau neu seirenau.

### Gwahanol Fathau o Groesfannau

Nid yw pob croesfan yr un peth! Ceir rhwystrau ar rai croesfannau, gatiau ar rai eraill, ac mae rhai croesfannau yn agored. Fodd bynnag, bydd angen ymdriniaeth ofalus â phob un. Y peth pwysicaf yw bod gyrwyr yn trin croesfannau â pharch. Disgrifir isod y gwahanol fathau o groesfannau y gallwch ddisgwyl dod ar eu traws yn rhan o'ch trefn yrru ddyddiol.

### Croesfannau Hanner Rhwystr

Wrth groesfannau hanner rhwystr bydd y rhwystrau'n cau y naill ochr a'r llall i'r ffordd ar wahân - ceir hefyd oleuadau rhybudd ac arwyddion rhybudd ymlaen llaw. Wrth y math hwn o groesfan bydd y trên yn sbarduno'r goleuadau a'r rhwystrau tua 30 eiliad cyn iddo gyrraedd - ni fydd hyn yn gadael rhyw lawer o amser i wneud camgymeriadau. Bydd y rhwystrau'n atal mynediad i'r groesfan ond yn gadael yr allanfa yn glir fel bo modd i unrhyw yrrwr sydd wedi croesi'r llinell stop wen fynd yn ei flaen pan ddaw'r rhwystrau i lawr.




## Canllawiau ar Groesi'n Ddiogel

- Gyrrwch yn ofalus wrth ichi nesáu at y groesfan a bod yn barod i stopio
- Peidiwch byth â goddiweddyd wrth nesáu at y groesfan
- Rhaid ichi stopio y tu ôl i'r llinell wen pan fydd y golau ambr ymlaen neu
- pan fo'r golau coch yn fflachio
- Peidiwch â gyrru ymlaen i'r groesfan onid yw eich allanfa'n glir a bod digon o le ichi yrru ar draws y groesfan a'i chlirio.
- Os byddwch chi'n croesi'r llinell wen wrth i'r golau ambr ddod ymlaen, ewch yn eich blaen.
- Peidiwch byth â bacio i'r groesfan reilffordd na throsti.
- Os yw'r goleuadau coch yn parhau i fflachio ar ôl i drên basio, arhoswch – mae trên arall ar y ffordd.
- Peidiwch byth â mynd igam-ogam o amgylch y rhwystrau - ni
- ddylech ond croesi pan fo'r rhwystrau wedi'u codi'n llwyr a'r goleuadau wedi diffodd

## Croesfannau Rhwystr Llawn

Bydd rhwystrau llawn weithiau'n gweithredu yn yr un modd â hanner rhwystrau, ond bod y rhwystrau'n cau'r holl ffordd. Mewn croesfannau eraill bydd gatiau awtomatig yn cael eu defnyddio yn lle rhwystrau. Ceir amryw o wahanol fformatau i'r croesfannau hyn, ond maent oll yn mynnu eich bod yn cadw at y rheol sylfaenol o stopio pan fydd y goleuadau ymlaen.

Ceir rhai croesfannau o hyd â gatiau a agorir â llaw, neu gatiau sy'n cael eu hagor a'u cau gan gynorthwyydd. Os byddwch chi'n dod ar draws croesfan â gatiau sydd heb oruchwyliaeth, bydd arwydd rhybudd a chyfarwyddiadau i esbonio beth i'w wneud. Dilynwch y cyfarwyddiadau'n ofalus, gan sicrhau bod y llinell yn hollol glir cyn gyrru ar ei thraws.

## Croesfannau heb unrhyw rwystrau

**Ar rai ffyrdd neu draciau tawel iawn, byddwch yn dod ar draws croesfannau rheilffordd heb unrhyw gatiau na rhwystrau, ac sydd fel arfer heb oleuadau na larymau rhybudd chwaith. Mae angen bod yn hynod ofalus ar y croesfannau hyn.**

**Bydd angen ichi fod yn siŵr bod y llinell yn glir cyn gyrru ar ei thraws. Gallai hyn olygu dod allan o'r cerbyd i edrych i fyny ac i lawr y llinell os na allwch weld yn ddigon da.**

**Y rheol sylfaenol wrth y croesfannau hyn yw STOPIO, EDRYCH a GWRANDO.**



## Nesáu at Groesfannau Rheilffordd

Mae nesáu at groesfannau rheilffordd fwy neu lai yr un peth â nesáu at groesfannau cerddwyr, gan y byddwch chi hefyd yn cadw golwg am gerddwyr yn ogystal â threnau.

Mae angen bod ar eich gwyliadwraeth am gerddwyr gan nad yw croesfannau bob amser yn cynnwys llwybr troed wedi'i ddiffinio'n glir. Mae'n bosib hefyd y gallai cerddwyr faglu ar wyneb anwastad neu ar y cledrau eu hunain.

Weithiau bydd gennych olwg glir o groesfan wrth ichi nesáu. Fel arall, efallai mai eich rhybudd cyntaf fydd arwydd ffordd yn dweud wrthych hi fod croesfan o'ch blaen. Bydd croesfannau cudd yn aml yn cynnwys marcwyr cyfrif i lawr wrth nesáu. Mae'r rhain yn wyn gyda bariau cyfrif i lawr coch, gyda phob bar yn cynrychioli canllath.

Gwiriwch eich drychau a bod yn barod i arafu wrth nesáu; rhaid i chi allu stopio os yw'r goleuadau ymlaen. Os nad oes goleuadau na rhwystrau rhaid ichi allu stopio wrth y llinell Ildio/Stopio os oes trên yn nesáu. Peidiwch â goddiweddyd cerbydau eraill wrth nesáu at groesfannau, hyd yn oed os ydych chi'n meddwl eu bod nhw'n arafu neu'n stopio'n ddiangen - efallai eu bod nhw wedi gweld rhywbeth nad ydych chi wedi'i weld.

Mae goleuadau ar y rhan fwyaf o groesfannau. Mae'r golau ambr cyson sengl yr un peth â golau ambr mewn set arferol o oleuadau traffig. Mae'n golygu y dylech stopio y tu ôl i'r llinell stopio onid yw'n beryglus gwneud hynny. Ar ôl y goleuadau ambr, mae dau olau coch yn fflachio - ystyr y rhain yw STOPIWCH.

Mae'r arwyddion rhybudd isod yn dangos a oes gatiau (gan gynnwys rhwystrau) ar y groesfan ai peidio. Ceir arwydd hefyd i rybuddio o'r risg y gallai gwaelod y cerbyd grafu wyneb y ffordd - er mai cerbydau hir y bydd y risg hon yn effeithio arnynt fwyaf, mae'n eich rhybuddio y gallai'r groesfan fod yn anwastad neu y gallai hyd yn oed dwmpath fod arni.



## Pan fydd Cerbyd yn Torri i Lawr ar Groesfan

Os bydd eich cerbyd yn torri i lawr ar groesfan reilffordd, rhaid i chi sicrhau eich bod chi'ch hun, eich teithwyr ac unrhyw arall a allai fod yn y cyffiniau yn ddiogel fel prif flaenoriaeth.

Achub eich cerbyd yw'r peth lleiaf pwysig!

Gallwch osgoi'r risg o dorri lawr neu o fynd yn sownd ar groesfan drwy geisio cadw'r ardal groesi yn glir bob amser. Os oes tagfa draffig, peidiwch â gyrru ar yr ardal groesi os nad oes gennych chi ddigon o le i yrru oddi arni ar yr ochr arall (bydd marciau 'Cadwch yn Glir' neu 'Focs Melyn' ar lawer o groesfannau).

Bydd y rheolau canlynol yn eich helpu i gadw'n ddiogel:

- Tynnwch eich teithwyr allan o'r cerbyd a'u symud oddi wrth y groesfan ar unwaith. Peidiwch ag aros nes bod y goleuadau'n dechrau fflachio neu nes i'r rhwystrau ddod i lawr; gallai hynny achosi panig.
- Os oes ffôn wrth ochr y groesfan, defnyddiwch y ffôn i gysylltu â'r signalydd. Esboniwch y broblem a bydd yn gallu rhoi rhybudd i'r trenau sy'n nesáu at y safle nes bo'r groesfan yn glir.
- Os oes amser, symudwch y cerbyd o'r groesfan. Ceisiwch wthio'ch cerbyd oddi arni.
- Ar ôl ichi symud eich cerbyd, ffoniwch y signalydd eto i'w hysbysu bod y groesfan yn glir. Os na allwch symud eich cerbyd, defnyddiwch y ffôn i ofyn am gyngor pellach.
- Os bydd y clychau'n canu, neu os byddwch yn gweld trên yn nesáu, bydd yn rhaid ichi adael eich cerbyd a sefyll ymhell oddi wrth y groesfan.

## Cerbydau Mawr sy'n Croesi Llinellau Rheilffordd

Yn dibynnu ar fath, maint, cliriad tir neu bwysau'r cerbyd y gallech fod yn ei yrru, mewn rhai mannau croesi efallai y bydd yn ofynnol cysylltu â'r signalydd dros y ffôn (darperir y rhif ffôn wrth y groesfan) cyn ceisio croesi'r llinellau rheilffordd. Os felly, bydd yn rhaid ichi gydymffurfio â'r cyfarwyddyd hwn. I yrwyr cerbydau mawr, mae'n hanfodol eich bod yn gyfarwydd â dimensiynau a phwysau eich cerbyd. Os bydd eich cerbyd o fewn cwmpas y gofynion i gysylltu â'r signalydd ac nad ydych yn gwneud hynny, gallai hynny arwain at achos troseddol yn eich erbyn chi a Chyngor Sir Caerfyrddin, fel Gweithredwr y cerbyd.

## 12 | Diogelu Cerbydau

Rhaid cloi cabiau cerbydau bob tro wrth eu gadael heb oruchwyliaeth. Ni cheir fyth adael y cerbydau hynny a chanddynt larwm/llonyddydd heb oruchwyliaeth heb i'r system ddiogelwch fod yn gwbl weithredol. Dylid cloi unrhyw eitemau drud o'r golwg neu eu tynnu o'r cerbyd.

Sylwer na fydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am eiddo a gaiff ei ddwyn o gabiau. Rhaid rhoi gwybod i'r Rheolwr Llinell a'r Heddlu ar unwaith am achosion o ddwyn. Rhaid rhoi gwybod i'r Uned Rheoli Fflyd am unrhyw ddifrod o ganlyniad i'r achos o ddwyn.

Dylid storio allweddi cerbydau yn ddiogel.



### Parcio wrth Gyfeiriadau Cartref

Lle rhoddwyd caniatâd i gymryd a pharcio cerbyd CSC wrth breswylfa breifat, rhaid gofalu i sicrhau bod y cerbyd wedi'i barcio gan gydymffurfio'n llawn a'r Ddeddf Traffig Ffyrdd a Chod y Ffordd Fawr. Rhaid diogelu'r cerbyd fel bo'n briodol, gan dynnu pob eitem o werth o'r cerbyd, er mwyn osgoi tynnu sylw lleidr bachu cyfle.

Wrth barcio cerbyd CSC mewn cyfeiriad cartref, rhaid ystyried perchnogion tai eraill wrth ddewis lle parcio priodol. Ni ddylai cerbydau achosi perygl ar y ffordd, na pheri niwsans i'r gymdogaeth. Cynghorir gyrwyr y gallai cwynion ailadroddus ynghylch parcio anghwrtais arwain at dynnu caniatâd yn ôl i gadw'r cerbyd yn y cyfeiriad cartref.



## 13 | Cyfarwyddiadau Cerbydau Penodol

### Cerbydau Cludo Teithwyr - Bws Mini Adran 19



### Trwyddedau

**Gall sefydliadau fel ein sefydliad ni wneud cais am Drwydded Bws Mini, (Adran 19 - Deddf**

**Trafnidiaeth 1985) ar gyfer cerbydau a all gludo rhwng 9 ac 16 o deithwyr.**

**Rhaid arddangos Trwyddedau Adran 19 yn ffenestr flaen unrhyw fws mini sy'n gweithredu o dan y cynllun hwn. Mae hyn yn cynnwys bysus mini a allai fod o dan drefniadau llogi dros dro. Mae trwyddedau ar gael ar gais gan yr adran wasanaeth neu'r uned rheoli fflyd.**

**Dim ond i'r Deyrnas Unedig y mae trwyddedau Adran 19 yn berthnasol.**

### Trefniadau Trwydded Yrru

Mae'r drwydded yrru D1 yn gategori o drwydded sy'n galluogi unigolion i yrru cerbydau sy'n cludo rhwng 9 ac 16 o deithwyr, fel bysus mini. I gael trwydded yrru D1, rhaid i unigolion fodloni gofynion penodol a derbyn hyfforddiant a phrofion ychwanegol y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer trwydded yrru safonol.

Mae'r gofynion hyn yn fodd i sicrhau bod gan yrwyr y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i weithredu bws mini yn ddiogel ac yn gyfrifol.

Gall gyrrwr sy'n dal trwydded D1 ar gyfer cerbyd cludo teithwyr (am dâl neu wobr) yrru unrhyw fws mini sy'n cynnwys 9-16 o seddau teithwyr. Dim ond i ddeiliaid trwydded categori D1 y darperir hyfforddiant MIDAS [Cynllun Ymwybyddiaeth i Yrwyr Bysus Mini].


Cyn gyrru bws mini bydd angen ichi fod yn ymwybodol o'r canlynol:

### Terfynau cyflymder ar gyfer bysus mini

| | |
|---|---|
| Ffyrdd unffrwd (lle nad oes terfyn isaf) | 50 |
| Ffyrdd deuol | 60 |
| Traffyrdd | 70 |
| Traffyrdd (wrth dynnu trelar) | 60 |

### Goruchwylio Teithwyr

Wrth gludo plant neu unrhyw deithwyr sydd angen gofal ychwanegol, rhaid i'r lefelau goruchwylio priodol fod ar waith. Rhaid i deithwyr gael sedd wedi'i dyrannu iddynt, gan na chaniateir teithwyr sy'n sefyll.



## Diogelu Eitemau Rhydd

Cyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau bod pob unrhyw eitem rydd, h.y. bagiau, yn cael eu diogelu ac na fyddant yn achosi risg i deithwyr mewn gwrthdrawiad traffig. Lle bo modd, dylid defnyddio cewyll bagiau.

## Diogelwch

Rhaid cario diffoddwr tân a phecyn cymorth cyntaf bob amser. Lle bo modd, rhaid parcio bysus mini bob amser mewn lleoliad oddi ar stryd, h.y. mewn maes parcio, ar dramwyfa neu yn nepo'r Cyngor. Os bydd bws mini wedi parcio ar stryd gyda'r nos, bydd yn rhaid i oleuadau ochr y cerbyd fod ymlaen.

## Gwregysau Diogelwch

Yn ôl y gyfraith, rhaid i yrwyr a theithwyr wisgo gwregysau diogelwch bob amser. Cyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau bod pob teithiwr yn cydymffurfio â'r rheoliad hwn.

Yn ôl cyfreithiau newydd ynghylch gwregysau diogelwch, mae'n ofynnol i blant dan 135cm neu sy'n 12 oed [beth bynnag sy'n digwydd gyntaf] eistedd mewn seddi diogel i blant yn ogystal â gwisgo gwregysau diogelwch. Bydd cyfrifoldebau gyrwyr yn amrywio yn dibynnu ar y math o fws mini sy'n cael ei yrru.

Fel arfer, bydd yn rhaid i blant ddefnyddio sedd car plentyn nes iddynt droi'n 12 oed, neu dyfu i fod yn 135 cm o daldra, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf. Rhaid i blant dros 12 oed neu fwy na 135cm o daldra wisgo gwregys diogelwch. Gallwch ddewis sedd car plentyn yn seiliedig ar uchder neu bwysau eich plentyn.

## Cosbau

Bydd diffyg gwybodaeth am gyfreithiau gwregysau diogelwch yn arwain at gyflawni trosedd newydd, a gyflwynwyd yn arbennig i yrwyr bysus, coetsys a bysus mini. Gall gyrwyr sy'n methu â chyflawni eu cyfrifoldebau tuag at deithwyr ddisgwyl derbyn hysbysiad cosb benodedig o £60 neu uchafswm o £500 o ddirwy os aiff yr achos gerbron llys.

## Defnyddio eich cerbyd eich hun ar fusnes cwmni - Fflyd Lwyd

Mae'n ofynnol i weithwyr sy'n defnyddio'u cerbydau eu hunain ar fusnes yr Awdurdod sicrhau'r canlynol:

- Bod yswiriant priodol yn weithredol ar gyfer y cerbyd, gan gynnwys 'defnydd busnes'.
- Mae'r cerbyd yn addas ar gyfer y ffordd fawr a bod ganddo dystysgrif prawf MOT gyfredol.

Os na fydd gweithiwr yn darparu dogfennau ar gais, gallai hynny beri bod gweithiwr yn anghymwys i hawlio lwfans milltiroedd modur. Bydd Rheolwr Llinell y Gyrrwr yn cynnal gwiriadau ar ddogfennau.



# 14 | Pan fydd Cerbyd yn Torri i Lawr



## Gyrru dan amodau gwahanol

Darperir y canllawiau canlynol i'ch cynorthwyo a'ch cadw'n ddiogel os byddwch chi'n eich cael eich hun ar ochr y ffordd ac angen cymorth.

## Traffyrdd

Yn ddelfrydol, dylech adael y draffordd wrth y gyffordd neu'r allanfa i ardal gwasanaethau traffordd. Fodd bynnag, ni fydd hyn bob amser yn bosibl, felly os oes rhaid ichi stopio ar unwaith, arwyddwch a thynnu i'r ochr ar y llain galed. Gwnewch yn siŵr eich bod yn parcio'ch cerbyd mor bell i'r chwith ag sy'n bosibl, gyda'r olwynion wedi'u troi tuag at y chwith.

Ceisiwch stopio mor agos ag sy'n bosibl at ffôn argyfwng ar ochr y ffordd, sydd i'w cael bob rhyw filltir ar y draffordd.

- Cyn ichi ddod allan o'r cerbyd, rhowch y brêc llaw ymlaen, a rhoi eich goleuadau rhybudd a'ch goleuadau ochr ymlaen. Os yw'r gwelededd yn wael iawn, dylech roi eich goleuadau niwl ôl ymlaen hefyd.
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi a'ch teithwyr yn gadael y car o'r drysau pellaf oddi wrth y ffordd, ac yn sefyll mor bell yn ôl o'r ffordd ag sy'n bosibl (i fyny'r clawdd neu y tu ôl i rwystr diogelwch os oes modd.)
- PEIDIWCH â cheisio gwneud unrhyw waith atgyweirio, waeth pa mor syml ydych chi'n tybio fydd y gwaith atgyweirio hwnnw. Gall hyn fod yn beryglus iawn a gallai achosi damwain.
- Yn lle hynny, cerddwch at y ffôn argyfwng agosaf wrth ochr y ffordd. Mae postyn marcio glas a gwyn wedi'i osod bob 100m ar hyd y llain galed, gyda saeth yn eich cyfeirio at leoliad y ffôn agosaf.
- Os ydych chi'n galw i gael eich achub o ffôn symudol, dylech geisio canfod yn eich union leoliad ar y ffordd cyn gwneud hynny.
- Arhoswch i'r gwasanaeth achub gyrraedd.

## Sut mae gwybod ble rydw i?

Os byddwch chi'n torri i lawr ar draffordd, bydd angen ichi roi disgrifiad manwl o'ch lleoliad. Gan fod llawer o'r traffyrdd yn edrych yn debyg iawn, gall hyn fod yn anodd i'w wneud weithiau, yn enwedig os ydych chi ar goll a heb unrhyw syniad ble rydych chi.

Yn ffodus ceir arwyddbyst ar hyd y draffordd (tua milltir ar wahân) sy'n rhoi gwybodaeth ichi am y ffordd rydych chi'n teithio arni, i ba gyfeiriad rydych chi'n teithio, a pha mor bell ydych chi o ddechrau'r draffordd.

### Rwyf mewn 'Ardal Achub am Ddim'

Os byddwch chi'n torri i lawr mewn parth achub am ddim, bydd angen ichi ddefnyddio'r bocs ffôn SOS i alw am gymorth am ddim. Bydd pyst wedi'u marcio ar hyd y draffordd yn dangos i ba gyfeiriad y mae'r bocs ffôn SOS agosaf.

Cofiwch na fydd cerbyd achub am ddim ond yn eich symud allan o'r parth achub am ddim. Bydd yn rhaid ichi wedyn wneud eich trefniadau eich hun i gael eich achub.

Darperir manylion cyswllt achub brys o fewn y ddogfen hon.

### Cerbyd wedi torri i lawr ar ffyrdd eraill?

Os bydd eich cerbyd wedi torri i lawr ar unrhyw ffordd arall, nad yw'n draffordd, gallai fod ychydig yn fwy diogel ichi wirio eich car eich hun a barnu a oes angen ichi gael eich achub. Dilynwch y camau syml hyn i sicrhau eich bod chi a'ch teithiwr/teithwyr yn aros yn ddiogel ar ochr y ffordd..

- Tynnwch i'r ochr a rhoi eich goleuadau rhybudd ymlaen. Os yw eich cerbyd yn achosi rhwystr, ceisiwch ei symud o'r ffordd cyn gynted â phosibl.
- Os yw eich cerbyd mewn perygl o gael ei daro gan gerbyd arall ewch allan o'r car gyda'r holl deithwyr.
- PEIDIWCH â'ch lleoli eich hun rhwng eich cerbyd a thraffig sy'n dod tuag atoch.
- Os na allwch atgyweirio'ch cerbyd ffoniwch am gymorth i atgyweirio'r car, a rhoi disgrifiad manwl o'ch lleoliad.
- If you are unable to repair your vehicle then call for breakdown assistance and give them a detailed description of where you are.

## 15 | Rhifau Cyswllt Brys

### Rhifau Ffôn Oriau Gwaith Arferol

**Derbynfa'r Fflyd 01554 784138**

**(Rhwng 8am-4pm o Ddydd Llun i Ddydd Iau ac 8am-3.30pm ar Ddydd Gwener)**



### Rhifau Ffôn Brys y Tu Allan i Oriau

Y Fflyd 07721 605917 / 07976 463579

Days Driverline (Problemau Mecanyddol) 0845 2964423

Sinclair (Problemau Mecanyddol) 0800 424151

Llesiant Delta (Rhoi Gwybod am Ddamweiniau) 0300 3332222

### E-bost ar gyfer Pob Ymholiad am

envbsufleet@sirgar.gov.uk

### Gwasanaethau Brys

999 / 101



## 16 | Digwyddiadau Modur

**Caiff pob digwyddiad cerbyd ei adrodd yn unol â gweithdrefn adrodd am ddigwyddiadau y Cyngor;**

### Yswiriant

- Rhaid cael yswiriant sy'n caniatáu defnydd busnes ar gyfer cerbydau preifat sy'n cael eu gyrru wrth gynnal busnes y cyngor.
- Rhaid hysbysu'r cyngor ar unwaith am unrhyw newidiadau trwyddedu neu gwmpas yswiriant sy'n berthnasol i staff sy'n defnyddio'u cerbydau preifat wrth gynnal busnes y Cyngor.
- Ni fydd y Cyngor yn derbyn atebolrwydd am hawliadau nad ydynt wedi'u cynnwys yn yswiriant y gyrrwr ei hun, wrth gynnal busnes y Cyngor.

Bydd pob mater sy'n ymwneud ag yswiriant cerbydau yn cael ei gyfeirio i sylw Uned Rheoli Risg y Cyngor.

Bydd pob gweithiwr sy'n gyrru cerbyd Cyngor yn rhan o'i gyflogaeth wedi'i gynnwys yn awtomatig ym mholisi yswiriant moduron fflyd y Cyngor; ar yr amod bod y cerbyd wedi'i ddatgan i yswirwyr y Cyngor ac ar yr amod bod y gyrrwr yn dal trwydded yrru gyfredol ddilys ar gyfer y cerbyd sy'n cael ei yrru.

Mae'r Adran Rheoli Risg yn gyfrifol am gadw rhestr cerbydau'r cyngor ar y Gronfa Ddata Yswiriant Moduron genedlaethol. Rhaid cysylltu i ddechrau â'r Uned Rheoli Fflyd i wneud cais i ychwanegu cerbyd at y rhestr.

Os oes ganddynt unrhyw amheuaeth ynghylch cwmpas eu polisi, rhaid i weithwyr gysylltu â'u cwmni yswiriant i gadarnhau'r mathau o ddefnydd sydd wedi'u cynnwys o dan eu polisi.



## Rheoli Digwyddiadau

Ni ellir osgoi digwyddiadau, ac waeth pwy sydd ar fai, bydd gyrwyr y Cyngor yn cadw agwedd broffesiynol bob tro pan fyddant wedi'u cynnwys mewn unrhyw fath o wrthdrawiad. Os ceir gwrthdrawiad, bydd y gyrrwr yn cymryd y camau canlynol ar unwaith:

- Stopio mewn lle diogel
- Diffodd yr injan
- Sicrhau bod unrhyw risg o dân, gollyngiad neu berygl arall yn cael ei leihau hyd yr eithaf
- Symud unrhyw deithwyr i ardal ddiogel
- Cymryd camau i glirio'r ffordd, rhybuddio traffig arall fel na cheir unrhyw wrthdrawiad traffig ffordd pellach, a rhoi cymorth cyntaf i unrhyw un sydd wedi'i anafu.
- Galw am y gwasanaethau brys os oes anaf, difrod difrifol i gerbydau neu'r ffordd, neu os oes unrhyw rwystr na ellir ei glirio.
- Gweithredu mesurau rheoli traffig os oes rhwystr ar y ffordd, os nad yw'r gwasanaethau brys eisoes yn gwneud hynny.
- Cael enwau a manylion cyswllt trydydd partïon a gafodd eu cynnwys yn y gwrthdrawiad, ac unrhyw lygad-dystion.

Ni ddylid cyfaddef o gwbl mai chi sydd ar fai yn y fan a'r lle o gwbl.

Tynnwch luniau o leoliad y gwrthdrawiad gan ddangos safle pob cerbyd, a'r difrod i bob cerbyd ac/neu eiddo. Dylai'r lluniau hefyd gynnwys yr ardal oddi amgylch, gan gynnwys dodrefn stryd, arwyddion traffig a llinellau.

Ni ddylech ond adael y lleoliad ar ôl cyfnewid manylion â'r trydydd parti. Os yw'r Heddlu yn bresennol, ni ddylech ond gadael y lleoliad ar ôl cael cyfarwyddyd i wneud hynny.

Os byddwch chi'n difrodi cerbyd neu eiddo trydydd parti pan nad yw'r perchennog yn bresennol, bydd yn rhaid ichi adael 'cerdyn cnoc' gyda'r cerbyd a ddifrodwyd neu bostio'r cerdyn drwy flwch post yr eiddo lle bo modd. Gall yr Uned Rheoli Fflyd ddarparu cardiau cnoc a gallwch eu cadw yn eich cerbyd.

Mae'n bwysig bod yr holl wybodaeth yn cael ei chasglu cyn gynted â phosibl ar ôl y ddamwain, er mwyn sicrhau y gall y tîm hawliadau ddechrau gweithio ar y digwyddiad ar unwaith. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych chi i fod i fynd ar wyliau yn fuan ar ôl y digwyddiad.

## Mewn argyfwng

### Anaf Personol

Lle ceir anaf i bobl ac/neu dda byw, dylech gysylltu â'r Heddlu a'r Gwasanaeth Ambiwlans ar unwaith os oes angen, a disgwyl iddynt gyrraedd..

### Hysbysu Rheolwyr am Ddamweiniau

- Hysbyswch eich rheolwr llinell/goruchwylydd am y ddamwain/digwyddiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol.
- Hysbyswch yr Uned Rheoli Fflyd cyn pen 1 diwrnod ar ôl y ddamwain/digwyddiad.
- Gofynnir ichi lenwi ffurflen adrodd am ddamwain/digwyddiad i ddibenion yr yswiriant.
- Os byddwch yn ei chael hi'n anodd llenwi ffurflen adrodd am ddamwain/digwyddiad, bydd yr Uned Rheoli Fflyd yn eich helpu ac yn archwilio eich cerbyd.

Er mwyn sicrhau bod dull cyson yn cael ei fabwysiadu wrth ymchwilio i ddigwyddiadau sy'n cynnwys cerbydau'r cyngor, defnyddir y weithdrefn ganlynol.

Pan fydd digwyddiad yn cynnwys unrhyw un o'r materion a restrir isod, bydd dyletswyddau gyrru'r gyrrwr yn cael eu tynnu oddi arno ar unwaith, tra bo'r rheolwr/goruchwylydd perthnasol yn cynnal ymchwiliad cychwynnol i'r ffeithiau dan sylw.

- Gorlwytho Dro ar ôl Tro (3 trosedd o fewn 12 mis)
- Troseddau Traffig Ffyrdd Ardystiadwy
- Cwynion difrifol (wedi'u cadarnhau) ynghylch gyrru
- Achosion ailadroddus o dorri rheolau ymddygiad gyrwyr (3 mewn cyfnod o 6 mis treigl)
- Digwyddiadau peryglus yn y gwaith
- Anaf i'r gyrrwr neu i eraill
- Difrod i eiddo, peiriannau, cerbydau oherwydd esgeulustod posibl ar ran y gyrrwr



## Ffurfio casgliad:

Bydd y rheolwr llinell yn trefnu i gynnal cyfarfod â'r gyrrwr a'i gynrychiolydd cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl derbyn yr adroddiad, er mwyn hysbysu'r gyrrwr am y casgliadau a ffurfiwyd ac am unrhyw gamau pellach a gymerir yn ei erbyn o ganlyniad i'r casgliadau hynny.

Bydd yn rhaid cynnal unrhyw ymchwiliadau pellach yn unol â pholisi a gweithdrefn ddisgyblu'r Cyngor, a allai arwain at gamau disgyblu.

Bydd yr Uned Rheoli Fflyd yn cynorthwyo i ymchwilio i hawliadau yswiriant, achosion o dorri rheolau ymddygiad gyrwyr ac amcangyfrifon ar gyfer atgyweirio'r cerbyd.

Bydd pob mater sy'n ymwneud ag yswiriant cerbydau yn cael ei gyfeirio i sylw Uned Risg y Cyngor.


Collect these details from the other party
Other party name:
Other party telephone number:
Address:
Other party registration number:
Other party policy number:
Other party insurer name:
Was the other party injured?
Other party number of occupants:
Witness name:
Witness telephone number

Complete, detach and pass to other party
Policyholder Name: Carmarthenshire County Council
Policyholder Vehicle Registration:
Policyholder Driver Name:

[Enghraifft o'r hyn y gellir ei ganfod yn y cerbyd]